MOLIANT I DDUW;

Neu ychydig nifer

O

HYMNAU:

Wedi eu cyfanſoddi, a'u gwneud yn gyhoeddus; mewn difrifol ddymuniad o'u bod yn fuddiol i ddynion, ac er clôd i Dduw, trwy Jeſu Grift.

Gan TIMOTHY THOMAS.

Trwyddo ef gan hynny, offrymmwn aberth moliant yn waſtadol i Dduw. Heb 13, 15.

Canaf i'm Duw tra fyddwyf. Pſ. 104. 33.

CAERFYRDDIN:

Argraffwyd gan EVAN POWEL, yn *Heol-y-Prior.* 1764.

44
4. 6.
86

N. B. Dylai pob Dŷn, ddarllain y Llythur neu 'r Rhag-ymadrodd, a fyddo o flaen pob Llyfr, cyn darllain y Llyfr.

Y Rhag-ymadrodd.

TYBYGWN fod gennif wîr ddymuniad i fod o gymmaint ddefnydd ag a allwyf, i feibion a merched Sion, yn ol y mefur a rannodd Duw i mi; hynny, ynghyd ac annogaeth amryw ddynion duwiol, a'm cymhellodd i wneud yr ychydig Hymnau canlynol yn gyhoeddus: Nid oedd gennyf un grâdd o fwriad i'w gwneud yn gyhoeddus pan y cyfanfoddais i y rhan fwyaf o hynyn t.

Mor belled ag yr wyf yn fy adnabod fy hun, y mae fy amcan yn dda; ond am y defnydd a'r barddoniaeth, rhaid i mi adel hynny i farn eraill: Y cwbl fydd gennyf i ddywedyd drofof fy hun am hynny, yw, eu bod yn oreu ag y gellais i; ac mae'n boffibl mai nid y mwyaf ei ddeall, yn y pethau hynny, fydd barottaf i feïo; nid wyfi yn gwybod fod un peth afiachus neu niweidiol ynddynt. Etto, nid wyf yn difgwyl iddynt fod yn dderbyniol gan bob mâth o ddynion; yn enwedig gan y rhai canlynol, fef, y rhai nad oes dim yn llawn dderbyniol ganthynt ond pechod; a'r rhai hefyd fydd wedi ymlanw o rag-farn yn eu herbyn; ac hefyd na allaf ddifgwyl eu bod yn dderbyniol gan y rhai nad ydynt dros ganu mawl yn yr addoliad cyhoeddus: gall hefyd, fod rhai, yfgatfydd, yn barnu na ddylyd canu dim, yn yr addoliad cyhoedd, ond 'falmau *Dafydd* (ymmyfg y *Cymry*) yn ol cyfan-

ſoddiad Mr. *Edm. Prys*: Am hynny, dywedyd yr wyf, fy mod yn cydnabod y gwaith hwnnw, yn waith canmoladwy a rhagorol, yn ol ei natur; gan fod cymmaint o ofal wedi bod ynddo am beidio a chymmylu meddwl yr Yſgrythur; ond etto, buaſai o fwy o ddefnydd, pe buaſai 'r grefydd iuddewig yn ei grym, nag y gall fod, nawr, dan ddiſglairdeb yr efengyl: ac wrth yſtyried bod yr apoſtol yn dywedid, *Canaf a'r deall, gyd ag a'r yſpryd*, yr wyfi yn barnu y gall cynnulleidfa o ddynion, ganu hymnau, ag a fo wedi eu cyfanſoddi yn ôl natur gwirionedd, ac eglurdeb yr efengyl, lawer yn fwy deallus nag y gallant ganu'r ſalmau, yn ol y cyfanſoddiad hwnnw; ſel y gall cynnulleidfa wrando pregeth, ag a fo yn ol gwirionedd yr efengyl, lawer yn fwy deallus nag y gallant wrando darllain cymmaint a hynny o 'ſgrythurau yr hên deſtament.

Ac wrth yſtyried hyn, yr wyf yn golygu fod cyfanſoddiad Dr. *Watts*, o'r ſalmau, yn llawer mwy dealladwy a buddiol i'w canu, nawr dan yr efengyl, na 'r eiddo Mr. *Prys*; ſef yr hwn a drôwyd i'r gymraeg gan Mr. *Dafydd Jones*; argraffiad newydd o ba un ydys yn ei ddiſgwyl allan y flwyddyn hon.

Gall rhai feddwl, os yw hymnau yn dda ac yn fuddiol, fod digon eiſioes o honynt, eyn dyfod y rhain: Yſtyried y cyfryw, mai os yw hymnau yn ddâ, na all bod peth da, yn amlhau, ddim fod yn ddrwg: ac os nid ydynt oll yn boddio 'r cyfryw, defnyddient y rhai o honynt a'u boddio; gan adel y lleill heibio; yſgatfydd fod rhai a gant fudd oddiwrth y rheiny.

Mae amryw o'r hymnau canlynol, wedi cael eu cyfanſoddi yn gyfattebol i ryw deſtynau o'r ſgrythur, ar ba rai y bum yn pregethu: mae 'rhai eraillar ryw raſuſau, breintiau, rhinweddau, &c.

&c. megis ffŷdd, &c. ſwpper yr Arglwydd &c. addfwynder, &c. &c. Mae rhai wedi cael eu cyfanſoddi oddiwrth ryw brofiad neu amgylchiad ag y byddwn i dano, yn yr amſer hwnnw; bum ar fedr gadel y rheiny 'nôl, eithr wedi yſtyried rhai o ſalmau *Dafydd*, meddyliais y gallent fod yn fuddiol i rai, bynnag pa beth a wnelo eraill o honynt: Mae rhai o honynt wedi cael eu cyfanſoddi uwchlaw ugain mlynedd o flaen eu gilydd; gan hynny gellir diſgwyl eu bod o wahanol brofiad ac archwaith; ac nid ydys wedi gofalu am oſod lawr yma, yn flaenaf, y rhai a gyfanſoddwyd gyntaf; eithr, yſgatfydd, rhai o'r rhai diweddaf yn flaenaf, neu fel y digywddai, o ran hynny.

Os byddant er clôd i Dduw a budd i ddynion, fe fydd boddlonrwydd mawr i'r offeryn gwael.

T. T.

Cyngor, i'r rhai ſy'n canu 'n anyſtyriol.

GWrandewch'wi air, gantorion,
Yn gyſſon, bôb yr un,
'N enwedig y rhai ifaingc,
Sydd am flaenori, 'n flin;
Dymunaf i chwi 'ſtyried,
Heb niweid bydd i chwi,
Un gair neu ddau o gyngor,
A gewch'wi nawr gen 'i.

2. Yn gyntaf peth, yſtyriwch,
Mai nid difyrwch byd,
Nac chwaith i chwythu balchder
I chwyddo 'n hawdd o hyd,
Yw canu caniad Seion,
Yr union gywrain gân,
Ond canu clod yn hylwydd,
I'r llywydd Arglwydd glân.

3. Ac hefyd, nid peth hynod,
Ar un diwrnod, clywch,
I ddangos y dŷn balcha,
Sy am ganu yma'n uwch;
Ond gwaith y goſtyngdig,
Yn ddidig, i'r gwîr Dduw,
Yw canu caniad Seion,
Bur union tra fo byw

4. Ac os 'dych chwi, wrth ganu,
'N amgeanu 'ch clôd eich hun;
Mewn ſŵn, heb gofio 'r ſylwedd,
Fel maſwedd a'r eich mîn;
Gwybyddwch, daw diwrnod,
Dychryndod, mawr ei drai,
I gwrdd â'r fâth gantorion;
Gelynion ŷnt, heb lai.

5. Ond os 'dych am flaenori;
I foli Brenin nêf,
Blaenorwch'wi, attolwg,
I'w gywir garu ef:
Ac mewn gwir hunan-wadiad,
Yn waſtad caffer chwi;
Ac yna, cenwch, cenwch;
Daw'r gwir ddiddanwch frŷ!

Gan fod yr Awdur yn bwriadu gosod yr Hymnau canlynol, gyd a'r lleill, ond nad oedd lle iddynt, gwelwyd yn gymmwys eu gosod i dawr yma.

Amryw flinderau, yn y bywyd hwn.

MEwn blinder mae gwir blentyn Duw,
tra mae fe yn y byd yn byw;
Mae blinder mewn mae blinder ma's,
pan gynta, caffo brofi grâs.

2. Gan lygredd, mae mewn gofid blin;
mae hwn o fewn iddo ef ei hun;
A ſatan ſy'n gofidio'n fawr
y duwiol, nefol, ſyma nawr,

3. Ymmyſg ei holl elynion drŵg,
mae dynion rai iddo 'n dala gŵg;
Mae'n natur annuwiolion byd,
fod mewn gelyniaeth iddo 'u gyd.

4. A blinder weithiau iddo ſy,
oddi wrth ei dylwyth yn ei dŷ,
A'i anwyl rai, yn wir a ro'n',
ond odid, brydiau, iddo boen.

5. Caiff feſur flinder, yn ei ddydd,
ond odid, oddi wrth deulu 'r ffydd;
Ac er mai 'r goreu gâr ŷnt hwy,
gwnânt ei flinderau, weithiau, 'n fwy.

6. Tra fyddo llygredd yn nhŷ Dduw,
heb flinder ni chair yno fyw;
Ni chawn yr hawddfyd, llawn o hêdd,
tra fo'm yn byw tu yma i'r bêdd.

7. Pan êl y duwiol, oll i gŷd,
mewn jachus fodd i'r uchel fyd,
Ni ddaw ddim blinder yno mwy,
na llygredd i'r lle byddant hwy.

Y duwiol yn ſefyll yn ei ran yn y diwedd.

MAE 'r duwiol rai, hyd ddiwedd byd,
i fod yn gorphwys, oll i gyd;
Yr Enaid hardd mewn cyflawn hêdd,
a'r corph fydd obry yn y bedd.

2. Ond pawb, ſy nawr, o fewn i'r bêdd,
gyfodant, i gael rhan o'r wlêdd:
Yn hardd ei liw daw'r ſaint i'r lan,
gan ſanctaidd ſefyll yn ei ran.

3. Mae Duw yn rhan i'r rhai y ſydd
yn cadw gyd ag ef, trwy ffydd;
Daw diwedd ar bob cyflwr triſt,
i bawb ſy, nawr, yn credu ynghriſt.

4. Ac yna, canu fydd eu gwaith,
dros hyfryd dragwyddoldeb maith;
A bydd y rhain, ſy nawr yn wan,
yn rhwydd yn ſefyll yn eu rhan.

5. O'r ſeintiau ſanctaidd, deweh a'ch cân,
er hefyd glôd i'r Jeſu Glân;
Can's trwy ei adgyfodiad ef,
ſe godir ni, i gyd i'r nef.

6. Ac yna 'r gân fydd hyfryd jawn,
in harglwydd Dduw, am ei holl ddawn;
Tra fom ni yma, molwn ef,
mewn gobaith moli yn y nêf!

Yr hydig gyfaryddyd, i gael allan yr Hymnau a chwennycher. wrth eu hyſtyr.

ADnabod nawr o ran, *Tu dalen* 36. Adnabod y rhai ſy gyda'r Jeſu, 38. Ardderchawgrwydd Criſt, 45. Annogaeth i lynu wrth Griſt, 66. yn yr Adgyfodiad, y duwiol fel angylion Duw. 68. Amynedd. 90. Addewidion. 91. Adgyfodiad. 93. 94. Addfwynder 99.

BRaint o fod yn gyfrannog o Griſt. 16. Braint trwy Griſt. 27. Bedydd. 54, 89, 90, Bendithio Duw, ſy 'n rhoddi ac yn cymmeryd ymaith. 70. Braint y gorthrymedig. 71. Bywyd i'r hwn a gretto Ynghriſt. 82. Bendith, 97.

CAriad Duw. 1. Cariad duwiol, 2. Cariad Criſt, 3, 35. Criſt yn debyg i'r ſarph brês. 11. Cyſur, 12. Cadw 'r pechadur trwy Griſt. 22. Cwyno llygredd. 24, 48, Criſt yn cyflawnu 'r gwaith. 40, Cymmorth ar un cadarn. 45. Cyfarwyddid gan Dduw. 46. Cwyno o eiſiau cryfach ffydd. 56. Cwyno o eiſiau cymhwyſiad mwy o'r addewidion. 57. Cwynfan dan anhwyl parhäus. 58. Criſt yn frenhin Seion. 63. Criſt yn tynnu 'r criſtion ymlaen trwy bob rhwyſtr. 79. Cwyno rhag gelynion. 80. Cân y cyſtyddiol. 82. Criſt gyd â'i bobl hyd ddiwedd y byd. 83. Criſt yn dioddef yr hyn oedd raid. 86. Codi 'r groes a chanlyn Criſt. 87. Cariad brawdol. 94, 95. Criſt yn caſglu yr ſaint ynghyd. 96.

DIoddefaint Criſt. 7, 9. Duw yn gorphen ei waith, 17. Y duwiol yn myned yn galonnog ar ol Criſt. 91. Dydd mawr, 20. yn yr hwn y bydd

y

y duwiol yn ddigywilydd, 12. Dymmuniadau duwiol. 60. Diwedd ar ofidiau'r criſtion. 63. Dymuniad am gymmorth Duw. 66. Dedwyddwch o ddiſgwyl wrth Dduw. 80. Dyfod at griſt wrth ei alwad. 81. Diniſtr y gelyn diweddaf. 84. Diolchgarwch i'r Tâd. 86. Dyfod wrth lais yr Efengyl 104.

E Difeirwch. 5. Eglwys yn un corph. 13. yn achos Eſgoredigaeth. 34. Efengyl, dal yn well arni. 55. yr Edeferiol. 70. yr Eglwys a Chriſt yn eiddo eu gilydd. 87. yr Etholedigion yn cael eu prynu a'i ſancteiddio. 100.

F Fydd. 2, 3, 14, 30.

G Obaith. 6, 7, 53, 65. Glynu wrth Dduw. 25. Genau Criſt yn ſelus. 26. Gwella o glefyd, 28. Galwad yr efengyl. 36. Gair Duw yn anhawdd ei ddeall, i rai, 44. Gwiſg-wen, 49. Gwagedd y byd, 64. Golwg ar ddiwedd y daith, 68. anfon Gweinidog, 98. Gogoniant y ſaint, 102. Goſtyngeiddrwydd, 102. Gwiliadwriaeth, 103.

H Iraeth am gymmundeb a Duw, 10. Hiraeth am gyfeillach Criſt, 15. Hiraeth am gymhwyſiad i foliannu Duw, 24. Hiraeth am oruchafiaeth, 47.

J Achawdwriaeth fawr, 85.

L Lafurio am y bwyd ni dderfydd, 43.

Myned

MYned yn y blaen, 27. Myfyrdodau, 33.

NEwynog a ſychedig, 11. Nithiad y byd, 52.

OFfeiriad droſom, yw Criſt, 48.

PEll yn agos, 17. Pregethu'n ffolineb gan rai, 33. Plant y wraig rŷdd yw'r etifeddion, 69. Pererin gwan mewn enbydrwydd, 72.

RHith duwioldeb, 32. Rhagoriaeth y duwiol, 54. Rhyfel hyd angau, 105.

SWpper. 14, 22, 23, 31, 37, 67, 97. Sicrwydd, 42. Sêl, 92. Seïon yn canu, 100. myned i Seïon, 103. Sancteiddrwydd, 107.

TRüeni dyn naturiol, 38. Trüeni trwy bechod, a braint trwy Grift, 107.

YMarfer â Duw, 18. Ynnill y byd a cholli 'r enaid, yn ddifudd, 19. Ymgyſuro yn Nuw, 31. Ymddiried yn Nuw, 39. Ymgeledd, ei ddymuno, 40. Ymddygiad addas i'r Efengyl. 51.

Daliwch ſylw, Fe ddymunir na ddarllener ymhellach na hyn, nes troi at y gwallau canlynol, a'u diwygio; ſef *tu dalen* 40. *llinell* 18. yn lle, a Chriſt o ran, darllain, a Chriſt o'i ran. *tu.* 41. *ll.* 22. yn lle, i fyn'd i dîr, d. i fyn'd trwy dîr. *tu.* 46. *ll.* 22. yn lle Du, d. Duw. *tu.* 52. *ll.* 26. yn lle, i'w 'ſgubau i', d. ei 'ſgubau i'w. *tu.* 55. *ll.* 1. yn lle, hynny, d. A hynny. *tu.* 64. *ll.* 21. yn lle, gyfiawnder, d. gyfiawnder. *tu.* 67. *ll.* 21. yn lle, rhydd, d. rhwydd. *tu.* 72. *ll.* 5. yn lle, XXXVII d. LXXXVII. *tu.* 74. *ll.* 13, a 14. yn lle, oeddwn i a'm dyled, d. wyddwn i o'm dyled. *tu.* 96: *ll.* 37. yn lle, ffrwythau, d. ffrwythlawn. Yr ydys yn meddwl nad oes dim beiau eraill, a'r na ellir yn hawdd eu deall.

MOLIANT I DDUW, &c.

HYMN I. Mesur cyffredin

Am gariad Duw.

MAE cariad mawr gan Dduw ein Tâd,
A hwn yn rhâd at ddynion;
A thyma'r ardd lle ' tyfodd llês,
Yn gynnes, i ti Griſtion.

2. Gwir gariad Duw, yw'r ffynnon clyw,
Lle 'tarddodd pob rhyw radau;
A thyma'r gwrês, lle tyfodd grâs:
O hwn daeth ma's i minnau.

3. O rhyfedd yw rhâd gariad Duw,
at ddynol-ryw trüenus:
O'r cariad hwn y tarddo id lawr,
i'm ambell awr gyſſurus.

4. O 'nghalon côd, de chafa glôd,
yr hynod gariad ynt;
Cariad ſy ffynnon cymmmint grâs!
mor felus flas mae'n pria!

5. O bydded côf o'r cariad hyn,
yn awr yn ennyn cariad
O fewn i'n c'lonnau bawb heb bâll,
i garu 'n gall ein ceidwad.

HYMN II. Meſur cyffredin.
Am gariad Duwiol

MAE tüedd mawr ynghalon dyn.
i ganlyn gwŷn lygredig;
A byw, o hyd, heb Dduw'n y bŷd,
nes dêl prŷd dychrynedig.

2. Ond pan dêl grâs, mewn grym a gwrês,
i wneuthur llês i'w galon;
Fe hoffa i Dduw, yn hyfryd clyw,
ac a fydd byw yn ffyddlon.

3. Mor hyfryd yw gwir ſerch àt Dduw,
mae'n gwneud rhai byw yn burion:
Ac nid yw'r rhain yn rhwyſgo 'nôl,
fel y mae'r ffol anffyddlon.

4. Ond myn'd ymlaen yngwaith ei tâd,
mewn golwg gwlâd drag'wyddol:
Gan ddiſgwyl bod ar fyr, yn byw,
lle 'mae eu Duw 'n breſennol.

5. O Dduw gwnâ'n ſerch yn ſwy o hŷd,
tra yn y bŷd y byddom,
At Dduw a'i ffyrdd, fel dynion ffel,
trwy fod dy awel troſſom.

HYMN III. Meſur hir.
Am Ffydd.

MOR ffôl yw dŷn tra mae heb ffŷdd,
mor dlawd mae'n byw mor wael y bŷdd!
Plant anghrediniaeth fyddant oll,
mewn bŷd a ddaw, yn bod ar gôll.

2. Ond dedwydd yw'r credinıol rai,
y rhai trwy ffŷdd ſy'n ufuddhau,
Dedwydd medd Duw, trwy'r ſgrythur lân,
er anedwydded o'ent o'r bla'n.

3. Y Tâd etholodd, prynodd Criſt,
y drŵg bechadur trüan triſt;
A'r yſpryd ſy'n ſancteiddio'r dŷn,
heb hyn, gwir ffŷdd ni chair gan un.

4. O Arglwydd gwrando clyw ein clôd,
i'th enw mawr boed hwnnw'n bôd:
Am roddi ffŷdd i ni rai ffôl,
i geiſio canlyn ar dy ôl

5. A Duw a'n dalio mewn ffŷdd grêf,
i'w gywyr garu, a'i gyfarch ef;
Ac yna clôd gaiff ef, ein Pen
ïe a'r y llawr ac uwch y llen

HYMN IV. Meſur cyffredin.
Am ffydd,

TRWY ffŷdd yr awn at Griſt pe cawn,
y nefol ddawn rinweddol,
O Dduw rho ffŷdd, fel gallwyf ffoi
at Griſt, ſy'n rhoi'n rhagorol.

2. Mae pob cyflawnder ynddo êf,
medd geiriau'r nêf ar gyho'dd,
Pa'm byddaf ffôl, heb fyn'd trwy ffŷdd,
am gael y bûdd a brynodd.

3. O boed ſy ffŷdd, trwy râs, yn fwy,
ac yna pwy'm gorchfyga!
Ar ſatan, bŷd, a chnawd trwy ffŷdd,
mi 'nilla'r dŷdd tywylla!

4. Ond os ſy ffŷdd yn wan y ſydd,
pob gelyn, bydd yn barod

I'm bwrw lawr, ymhob rhyw lê ;
fy Nuw, doed e' i'm gwarchod.

5. Trwy ffydd 'rwy'n ceiſio byw yn awr,
ond daw rhyw fawr ddiwrnod
I mi gael gwel'd yn eglur jawn,
pan dêl dŷdd llawn ollyngdod.

HYMN V. Meſur cyffredin.
Am gariad Criſt.

MAE cariad Criſt yn gariad mawr,
o'r nêf daeth lawr i'w ddangos;
Aci wneud hwn yn fwy ar g'o'dd,
dioddefodd angau ing lo's

2. Mawr gariad heb ei fath oedd hwn;
Criſt gym'rodd bwn pechadur :
O gariad ar bechadur tlawd,
ein hunaf Frawd ga's ddolur.

3. O gariad mawr at ddynol-ryw,
Criſt, gwir Fab Duw, ddioddefodd,
Yngwrês ei gariad 'roedd e'n dwym,
pan rho'w'd e'n rhwym ar gyho'dd

4. Mae'i gariad pur, ef yn parhau,
at bawb o'r rhai a garodd.
Ac ni leihaodd ei gariad mawr,
er cymmaint, lawr, ddïoddefodd.

5. A'i gariad, byth, a bair ei glôd;
trwy bawb o'r hynod ſeintiau :
O canwn nawr i'r cywyr Oen,
'ddioddefodd boen yn ddïau.

HYMN VI. Meſur hir,
Am gariad Criſt.

MAE cariad Criſt yn gariad mawr
mae'n amlwg yn y nêf a'r llawr,

Can's

Can's hyn a wnaed yn gyhoedd mâs,
pan cymmerth Jeſu agwedd gwâs.

2. O gariad ar bechadur tlawd,
ſe gymmerth Criſt y groes a'r gwawd,
A'r dyled mawr oedd ar y dŷn,
a dalodd Jeſu mwyn ei hun.

3. O gariad mawr! ſe gym'rodd Criſt,
fawr bwn, oedd ar bechadur triſt,
Ac 'ſe a'i dygodd lawr i'r bêdd;
trwy hyn, ſe ga's pechadur hêdd!

4. Criſt, o'i wîr gariad at y dŷn,
a aeth i'r rhyfel mawr ei hun;
Ac 'ſe goncwerodd bawb ar g'oedd,
er lleied argoel unwaith oedd.

5. O canwn nawr, i'r Cariad hwn,
a'n gwnaeth ni 'n rhyddion, byth, o'n pwn;
A byddwn, bob un oll, yn dyſt,
o gywyr gariad Jeſu Griſt.

HYMN VII. Meſur cyffredin
Am Edifeirwch.

DUW grëodd dŷn mewn cyflwr da,
i gadw gyda'i Arglwydd;
Ond pan ddivſtyrodd ef ei Dduw,
'ſe' aeth i fyw mewn aflwydd.

2. Ond etto rho'w'd efengyl grâs,
i glyw rhai diras diriaid;
I wîr gyffroi, rhai drwg i droi;
a dyfal ffoi rhag diaflaid.

3. Rhaid gadel pechod câs mawr ddrŵg,
on'tê cair gŵg yr Arglwydd;
Rhaid 'difa hau, am dan bob bai,
on'tê, bydd gwae, tragywydd.

4. Duw ſy'n rhoi grâs i 'difarhau,
trwy'r hyn, mae'r bai yn ffiaidd,
Gan hynny Duw, bïau'r clôd yn llwyr,
y bore, ar hwyr, yn beraidd.

5. Gan adel chwantau, ffiaidd ffôl,
canlynwn ôl ein Harglwydd.
A chofio camrau cynnil Crift.
a fu yn dyft ſancteiddiwydd.

HYMN VIII. Mefur hîr.
Am obaith y Criftion.

YN Nuw, ymddiried byth a wnawn,
am waredigaeth digon llawn:
Oddi wrth bob blinder, yma fydd,
a'r trallodd trwm, o ddŷdd i ddŷdd,

2. Can's, er cael gofid mawr bob dŷdd,
mae gobaith, rhad ceir myn'd yn rhydd,
Mae gobaith, nawr, ceir myn'd uwchlaw,
pob gelyn a phob briw a braw.

3. Er bod hên ſattan, nawr bob dŷdd,
ac anghrediniaeth, (groes i'n ffŷdd,)
Yn d'weyd, mai uffern fydd ein llê;
mae gobaith 'cawn ni fyn'd i'r Nê'.

4. Er na's cair nerth o fewn i'n cnawd,
ac er na's cynnorthwya brawd,
Mae gobaith gwŷch i'w gael trwy Grift,
yr awn uwchlaw pob troion trift.

5. Er i ni farw, a myn'd i'r bêdd,
mae gobaith codir ni mewn hêdd;
Ac y cawn fod, dros fyth, i fyw
ymmhreſennoldeb gwŷch ein Duw.

HYMN IX. Meſur cyffredin
Am obaith y Criſtion.

MAE gennyn obaith nawr yn ſtôr,
mae hwn fel angor enaid,
Yn cynnal calon leſg i'r lan.
pan bo mewn man tra diriaid.

2. Er bod y duwiol yma'n byw,
heb gyſſur, clyw. yn fynych;
Mae gobaith caiff fod yn y Nê'
mewn cyſſur, lle mae'n chwennych.

3. Mae'r duwiol, nawr, mewn llygredd blîn,
neu'r llygredd ſy'n ei ddilyn;
Ond mae mewn gobaith y cair ef,
fry, yn y nêf, heb ronyn!

4. Fe gair y duwiol, nawr, ryw dro,
yn rhodio mewn tywyllwch;
Ond mae mewn gobaith cair e'n byw,
yngoleu Duw'r diddanwch.

5. Trwy ffŷdd, y duwiol, wêl ymhêll
y pethau, gwêll, ſydd uchod;
Ond mae mewn gobaith bod yn byw,
fry, gyda Duw, yn waſtod

HYMN X. Meſur cyffredin.
Am ddioddefaint Criſt.

CRIST Jeſu, annwyl Fâb y Tâd,
a ro'dd ei wa'd i'n prynu;
A mawr y poen a ddug yr Oen,
dros ddynion, i'w gwaredu!

2. Ei gefn a gurwyd, gynt, yn lew;
a thynnwyd blew ei gernau;
Gan boeredd bu yn wael ei lun,
gelynion blîn a'i gwawdiai.

3. Flangellwyd Criſt mewn ffyrnig fodd,
can's diriaid oedd pechodau,
Mewn drain tra phigog, bu ei ben ;
ac amal ſenn ddioddefai.

4. Yr Jeſu, 'nawr oedd yn ei waed
o'i ben i'w draed yn boenus,
Er hyn i gyd, rhyw rai, ar g'oedd,
a godent floedd g'wilyddus,

5. Gan dd'weud ddwy waith croeſhoelier ef;
pob un, a'i lêf a orfu.
Dewiſwyd lleidir o flaen Criſt ;
pa ofid triſt oedd hynny !

[6. Ond etto'n gyſſur y daeth hyn,
trwy rinwedd 'r un rhyw Jeſu,
Can's trwy ei boen mewn gwaed a chwys
mae'n felus fwyd i'n porthi.]

7. Ar yſgwydd Jeſu rho'w'd y groes ;
ca's ef fawr loes wrth hynny,
I ben *Calvaria* rhaid oedd myn'd
o clywn, fath ffrind fu'r Jeſu !

8. Rhow'd Jeſu yno, ynghrôg wrth bren;
ſef fry, ar ben y mynydd,
Lle bu e'n nôd o wawd, yn wîr,
yn dwyn y cûr a'r cerydd.

9. Pan daeth yr awr 'apwyntiodd Duw,
ni chai ef fyw yn chwaneg,
Ei ben gogwyddodd Jeſu dâ.
ei yrfa oedd wedi 'rhedeg.

10. Pryd hyn mawr ddychryn fu ar goedd,
[bu cyffes floedd Canwriad]
A llen y demel 'rwygai'n ddau ;
can's dioddef wnai ein ceidwad !

11. Pryd hyn [trwy grŷn] fe holltai'r graig.
(a phen y dd aig a ddrylliwyd)
Y nawr dioddefodd Criſt mab Duw,
a'r nefoedd, clyw, a ddüwyd.

12. A'r Jeſu ddodwyd yn y bêdd,
o hyn daeth hêdd i ddynion,
A'r Jeſu g'odwyd fynu o'r bêdd,
o hyn, daeth, gwlêdd i *Seion!*

13. A'r Jeſu aeth tu fewn i'r llen ;
coronwyd pen yr Jeſu :
Mae'n eiriol dros droſſeddwyr gwael,
'rhai ſy gael eu gwaredu.

14. Wrth feddwl am holl boenau Criſt,
mae'n fatter triſt yw dyſtio ?
Ond wrth feddwl am ei ffrwyth,
mae'r goreu bwyth i'w goſio.

15. Gan hynny, *Seion*, na fydd ſwrth,
heb ganu, wrth fyn'd adre',
Can's nawr cawn ſôn am Griſt ein Pen,
yn llawen, ar ein ſiwrnau.

16. Fe aeth yr Jeſu uwch y llen,
a hyn fel Pen yr eglwys,
Cawn innau, trwyddo, uwch y ſer,
wir ffrwythau pêr paradwys.

HYMN XI. Meſur hîr.
Am ddioddefaint Criſt.

CRirſt gwîr Fâb Duw a ddaeth i'r bŷd
i ddioddef poen, a hyn mewn pryd,
Yn achos beiau dynol-ryw.
i'r rhain gael, etto, gymmod Duw.

2 A mawr fu'r poen ddioddefodd Criſt'
i gael rhyddhau pechadur triſt,

Pryd

Dim

Dim llai na cholli 'fywyd llon,
i gael, yn fyw, ei blant o'u bron.

3. Fe gollodd, droſſom ni ei wa'd,
i ni gael trwyddo ef ryddhâd ;
Fe gurwyd Criſt, cyſſurwyd ni,
o pwy na charau'r Un a Thri !

4. Pan oedd y Jeſu ar y pren,
fath d'wllwch du oedd fry uwch ben !
Ond pan y codwyd Criſt o'r bêdd,
mor ddiſlgair 'daeth Efengyl hêdd !

5. Er ei fod nawr fry, yn y nêf.
'rŷm ni 'n cael ffrwyth 'i eiriolaeth grêf,
Ac 'fe ddaw etto attom ni,
i'n dwyn o fewn i'r lle 'mae fry.

HYMN XII. Meſur hîr.

Hiraeth y Duwiol am Gymmundeb a Duw.

O Arglwydd pam 'r wyfi yn byw,
heb fwy 'cymmundeb gwŷch a'm Duw ?
Pa beth yw'r achos dy fod di,
'n ymguddio nawr, oddi wrthyf fi?

2. Mae 'm hiraeth i nawr fel yr hŷdd,
am dy gyfeillach, er fy mûdd ;
Pa hyd 'r ymgyddi, fel â llen,
rhag it, lewyrchu ar fy mhen ?

3. Mae llawer nawr yn c'odi llef,
gan dd'weyd, Pwy ddengys dda iddo ef?
Ond dywedafi, tra fyddwyf fyw,
caf ddigon ddâ gan f' arglwydd Dduw.

4. Fy Arglwydd nag ymgyddia di,
rho felus flâs dy râs i mi ;
A dangos mai ti yw fy Nuw,
ac câf fod gyda th'i yn byw.

5. O Arglwydd rho 'th gynnmundeb ym,
a lladd fy llygredd, fydd i mor llym,
Ac yna, ' bydd fy hiraeth i,
yn fwy, ' fod yna, gyd â thi.

HYMN XIII. Meſur hir.

Y Newynog a'r Sychedig, yſprydol, yn cael ei ddiwallu.

RHyfeddol, o.rhyfeddol yw.
mor llawn o gyſſur yw gair Duw;
Mae yma gyſſur, trwy fawr goſt.
mewn ſyched, ac mewn newyn toſt.

2. Cair yma'r JESU 'n fara bras!
a Chriſt yn ddiod, beraidd flâs!
Can's Criſt a'i d'wed, mewn cyhoedd lêf,
mi credaf, ac a'i caraf ef.

3. Os f' enaid fy'n hiraethu'n driſt,
am wir gyfiawnder Jeſu Griſt;
Mi ga' niwallu ganddo ef;
can's d'wedodd hyn, ag eglur lêf.

4. Pan caffwyf fi 'niwallu 'n llawn,
gan wîr gyfiawnder Criſt a'i ddawn,
Pa ham y bydda 'i yna'n driſt?
can's fy holl ddyled talodd Criſt.

5. O Dduw, diwalla f' enaid i,
fel gallwyf dy glodfori di;
Can's 'r hyn a rhoddech im' mewn hawl,
cai dithau 'nol mewn nefol fawl.

HYMN. XIV. meſur hîr.

Criſt yn gyffelib i'r ſarph bres.

PAn bechodd Iſrael 'nerbyn Duw,
gan danllyd ſeirph, ni chaent hwy fyw,

Ond

Ond Duw a drefnodd y Sarph brês;
at ddofi 'r gwenwyn mawr a'r gwrês

2. Felly, yn wîr, y trefnodd Duw,
ei anwyl Fâb, dros ddynol ryw?
Fel y caent fyn'd 'i gyd i'r nêf,
ſef pawb a gredant ynddo ef.

3. Y ſarph a godwyd fry, ar bren;
cai weld, a byw, a godai' ben;
Felly derchafwyd mab y Dyn,
fel, cadwer pob crediniol un.

4. Fe a ddarchafwyd ar y groes,
[dïoddefodd Jeſu lawer loes]
A hyn a fu, trwy fendith Duw,
i mi, bechadur tlawd, gael byw.

5. Derchefir Criſt yn 'fengyl grâs;
ac felly bydd e'n ymborth brâs,
A phawb, mewn ffŷdd, ddêl atto ef,
gaiff fyw, a'i ſoli, fry'n y nef.

HŸMN XV. Meſur hîr

Y pechadur yn cael cyſſur.

DAN faich o bechod yr ŷm ni,
a'n llygredd, llawn, yn gryf fel llîf,
Ond hiraith ſydd o'n mewn ni, nawr,
am gael y pechod, pwn i lawr.

2. Pan clywyf fi Efengyl Criſt,
yn d'wedyd wrth bechadur triſt,
Bod rhydd-did iddo 'gael o'i glwy',
mae fenaid i'n heiraethu'n fwy.

3, Os felly 'mae bechadur, crêd,
yr hyn wnaeth Criſt a'r hyn a ddwêd,
Mae cyſſur i ti gael, yn awr;
maddeuwyd it' bob pechod mawr.

4. Er bod ein llygredd fel y llîf,
a'n drŵg bechodau 'n amal rîf,
Trwy Grift, maddeuir hwynt, i gyd;
a chyffur cawn ni, nawr, mewn pryd.

5. Ac os cyffuron ' gawn ni nawr,
' beth gawn ni fry 'n y nefoedd fawr!
Pan b'om heb lygredd byth yn bôd,
trwy hyn, caiff grâs, mewn gwrês ei glôd.

HYMN XVI. Mefur hîr.

Yr Eglwys yn un corph, yng Nghrift ac yn aelodau i'w gilydd.

YN Eglwys Crift mae llawer dŷn,
ond etto ni chair corph ond un;
Can's yn yr Jefu maent bob rhai,
yn un corph oll, heb fwy, heb lai.

2. Mae'r Eglwys, nawr, trwy'r Arglwydd nêf,
yn gynnilledig ynddo êf'
Ac ' mae 'r Crift'nogion, nawr, fydd gâll,
yn uno'n llon, y naill a'r llâll.

3. Mae Crift yn Ben i'r feintiau llon,
a hwythau yn gorph i gyd o'r bron;
A thrwy fawr heiddiant Crift a'i ddawn,
fe wnair y corph, i gyd, yn llawn.

4. Can's, fel mewn corph anianol, mae
pob aelod yn ei le, 'n ddilai;
Fel hyn cair Eglwys Dduw o ddê',
pob aelod ynddi, yn ei llê.

5. Boed clôd i Dduw am dduwiol ddawn,
trwy'r hwn ' mae'r llwythau 'nghyd mor llawn,
Fel corph yn un, yn coffa clôd,
eu Pen a'u prïod, fry, fy'n bôd.

HYMN XVII. Meſur hîr

Am ffydd, ac yn erbyn anghrediniaeth

MOR dda yw'n Harglwydd Jeſu Griſt,
tu ag at bechadur calon driſt
Ond rhaid yw credu ynddo ef;
mor dda yw ffŷdd, a'i chael hi'n grêf.

2. Mae anghrediniaeth yn beth câs,
mae'n gwbwl groes i natur grâs;
Na fyddwn anghrediniol mwy,
can's trwyddi ca's ein henaid glwy.

3. Gwîr ffŷdd a wêl, gwîr ffŷdd a glyw,
gwîr ffŷdd a rydd ei eiddo i Dduw;
Gwîr ffŷdd a lonna galon driſt;
gwîr ffŷdd a fawr dderchafa Griſt.

4. Y dŷn ſy a ffŷdd, yn ufudd cair;
can's ffŷdd a gerdd yn ol y gair,
Ac nawr, with gerdded ar ei ôl,
hi geidw'r Jeſu yn ei chôl.

5. O Arglwydd helpa'n ffydd ſydd wan,
i gadw'i golwg, nawr, i'r lan;
Ac nad ni' laeſu yn ein gwaith.
tra b'om ni heb ddiweddi'n taith,

HYMN XVIII. Meſur cyffredin.

I'w chanu ar ol Swpper yr Arglwydd.

YMae lle da yn llŷs ein Duw,
i bawb ſy'n byw'n nefolaidd,
Er gorfod bod mewn trallod bŷd;
mae ambell brŷd orfoledd,

2. Gan in' gael gwlêdd, y nawr mewn hêdd,
gorfoledd ſ' ar ein tafod;

Ein

Ein c'lonnau cenwch, nawr ar frŷs,
am lês mewn llŷs mor hynod!

3. Er bod y wlêdd mewn hêdd i ni,
i'n ceidwad bu'n boen dirfawr:
O nawr moliannwn Dduw ar gân,
am freintiau gwiwlan gwerthfawr.

4. Ac nac anghofiwn gariad mawr,
'ddangoſwyd lawr i'r ddaiar;
Gan gym'ryd cyſſur, nawr o'r bron,
o'n calon byddwn ddiolchgar.

HYMN XIX. Meſur hîr.

Dymyniadi fwynhau cyfeillach Criſt, a bod yn barod i'w gyfarfod, yn ei ail-ddyfodiad.

O Tyred Arglwydd mawr i'th ardd,
gad i ni wel'd dy wyneb hardd;
Rho dro i'th winllan, hefyd gwêl,
mor wan yw'n grâs, mor fach yw'n fêl.

2. A rho awelon mwynion grâs,
i gyffro 'th lyſiau i 'roglu ma's!
Fel bom a golwg ffŷdd, yn grêf,
ar Griſt, a'i ail ddyfodiad êf.

3. Ein Harglwydd aeth tu fewn i'r llen,
pryd hyn, i'r eglwys 'r oedd e'n ben,
Pan dêl ei ail-ddyfodiad êf,
fe godir hon i gyd i'r nêf.

4. O tyred Jeſu Griſt ar frŷs,
ti orchfygaiſt gynt trwy waed a chwŷs,
Er ein bod ni îſſaw i'r llen,
yr y'm ni'n llefain nawr Amen.

5. Ac 'r y'm yn diſgwyl am ein braint,
o gael y nefoedd, gyd a'th ſaint,

Gobeithio ſefwn yn ein rhan,
er bod yn fynych nawr yn wan

HYMN XX. Meſur hîr.

Mawr fraint, y rhai ſy 'n gyfrannog o Griſt.

BRaint fawr, a ro'w'd i ddynol-ryw,
yw'r Jeſu da, gwîr fwyn Fâb Duw,
Ar rhai ſ a'u ffŷdd Ynghriſt yn grêf,
mae ganthynt fywyd trwyddo ef,

2. Trwy Griſt, yn gyfiawn bydd byw 'r ſaint,
trwy Griſt cant gyſſur mawr mewn braint,
Trwy Griſt cant nerth i orchfygu 'r bŷd,
trwy Griſt cant fyn'd i'r nêf i gŷd.

3. Mae gan y ſaint Fâb Duw yn ben,
er cymmaint ſŵn gelynol ſenn,
Mor rhyfedd fydd y rhain ryw brŷd,
pan delo diwedd ar y bŷd.

4. Pan byddont hwy, ſydd nawr heb Griſt,
mewn dyrus dro, bawb oll yn driſt,
Bydd pawb ſy 'n credu ynddo êf,
mewn bywyd hardd yn byw'n y nêf.

5. O codwn nawr, mewn calon fryd,
i felus foli Duw o hyd,
Mewn gobaith bod dros byth yn byw,
ymmyſg y dorf ſy'n moli Duw.

HYMN

HYMN XXI. *Iw chanu ar feſur hymn* Tanſ'ur, *heb ddyblu; neu o adel y geirau ſy rhwng y cromfachau, 'nol, gallir ei channau a'r y cyffredin feſur hir.*

Y rhai pell yn cael eu gwneud yn agos, trwy waed Criſt.

FE ddaeth gwîr newydd nawr i'n plith,
'rhai fuom, gynt yn byw yn chwith,
Can's d'wêd efengyl hyfryd Duw,
fod gobaith nawr i ni [rai gwael] gael byw.

2. Er ein bod gynt yn byw ymhêll.
mae nawr, i ni, newyddion gwêll;
Can's mae i ni nawr y fraint o fyw,
yn agos [agos] at ein haglwydd Dduw.

3. Nyni fu'm bell, oddiwrth bob braint;
heb ddim o'r fylwedd fy'n y ſaint;
Ond trwy fawr gariad Criſt a'i waed,
mae gennym [nefol] freintiau nawr yn rhâd.

4. A'n breintiau oll a gawd trwy Criſt,
trwy ddirfawr boen ei angau triſt!
Can's pan yr o'em mewn bai yn bwy,
ein caru ni a['n ceiſio] wnaeth mab Duw.

5. Y nawr, gan gofio Criſt a'i boen,
rhown fawl yn ddwys i Dduw a'r Oen;
Rhown fawl yn lew mewn puraidd lêf,
can's ni a ddygwyd ['n agos] at y nef.

HYMN XXII. meſur hîr.

Duw'n gorphen y gwaith da, yr huny mae efe 'n ei ddechreu.

GWaith da yw'r gwaith a wneur gan Dduw,
gwneud dynion gwael o feirw'n fyw;
Peth da yw Cariad, da yw ffŷdd;
peth da yw Ediferwch prûdd.

2. Mor dda yw gobaith, i Ddŷn gwan,
mor dda yw cyſſur ymhob man
Mor dda mae Duw yn gwneud, trwy râs,
gwneud cyndyn Ddŷn yn ufudd wâs.

3. Mor dda fod ſail i hyder crŷf!
na yſſa 'r rhŵd, na fwytty 'r prŷf;
Ac ni all ſatan rwyſtro 'mlaen,
Y gwaith a wneur trwy'r Yſpryd Glan.

4. Anfeidrol allu Duw ſy faith;
mae'n gorphen wedi dechreu 'r gwaith;
Er grym a gwrês pob gelyn câs,
dïyſbydd byth yw ffynnon Grâs.

5. O codwn, canwn, molwn Dduw;
gwîr Awdur Jachawdwriaeth yw;
Duw da, gwaith da, dŷn da, trwy hyn,
boed mawl i Dduw 'n ei ddawnus Fryn.

HYMN. XXIII. Meſur hîr.

Daioni 'n dyfod o ymarfer a Duw.

Y Marfer dda, yn ddiau yw,
ymarfer ffyddlawn, a'r gwîr Dduw;
Mae heddwch mawr i'r rhai wnêl hyn,
o na b'em oll yn bod yn llyn,

2. Daioni mawr fy'n d'od i ddŷn,
wrth gadw gyda Duw, ei hun;
Daioni mewn, daioni maes,
o fod, i Dduw, yn ufudd wâs.

3. Daioni 'n farw, ac yn fyw,
ſy'n canlyn arfer nawr â Duw;
Ninnau arferwn nawr ag ef,
mewn gobaith arfer yn y nêf.

HYMN

HYMN. XXIV. meſur hîr.

Y Duwiol yn myned yn galonog ar ol yr Arglwydd yn ei Ordeinhadau, er gwaethaf gwradwyddiadau 'r byd.

O Molwn Enw 'r Arglwydd Dduw,
am Râs, i'n gwneud o feirw 'n fyw,
A'n bywyd ni a fytho, fyth,
yn moli Duw, tro ynom chwyth.

2. Mae tryſſor grâs yn llawn ynghriſt,
trwy hwn llawenir f' enaid triſt;
Mae ordeinhadau gwych gan Dduw,
at lonni f'enaid i tr'w'i 'n fyw.

3. Mae ſiamplau da yr Jeſu glân,
i'w hyfryd ddilyn yn blaen,
Mewn bedydd dw'r bu'n ſiampl de,
mor felus gwneud fel y gwnaeth e'.

4. Pa rym fy 'ngwradwyddiadau'r bŷd,
i rwyſtro canlyn Criſt, o hyd;
Mae llawer mwy o rym mewn grâs,
i'n tynnu 'mlaen mewn tyfiant brâs.

5. Am hyn rhown fawl i Dduw o hŷd,
er gwaetha gwradwyddiadau'r bŷd,
O Dduw bendithia ni ,bawb oll,
a chadw ni rhag mynd ar goll.

HYMN. XXV. meſur hîr.

Pa beth a dal i Ddyn ynnill yr holl fyd a cholli ei Enaid.

MAE llawer Dyn, mor ddrŵg yn byw,
heb feddwl am fyn'd ger bron Duw,
Ac am ei bleſer brwnt ei hun,
ſe gollir Enaid llawer un.

2. Och, 'beth dâl pechod brwnt yn awr,
pan ſyrthio 'r bywyd bach i lawr!
Beth dal hyfrydwch, gwŷn, a chwant,
a cholli 'r enaid byth y bant!

3. Trugaredd, O trugaredd yw,
fod grâs yn grŷf yn awr gan Dduw,
Rhag colledigaeth enaid triſt,
mor llawn mae grâs yn Jeſu Griſt!

4. Gan fod ein perigl ni mor fawr,
pwy oedai 'i Enaid funud awr?
Na fyddwn groes, ond dewn at Griſt,
rhag colledigaeth enaid triſt.

5. Dewn bawb, o'i fodd, o galon fryd
am râs i ganmol Duw i gyd;
O dewch yn awr i ganmol Duw
am gadw f enaid bach yn fyw.

HYMN XXVI. Meſur hîr.

Am farn y Dydd mawr.

MOR ofer treulia llawer dŷn
ei fywyd, wrth ei fodd, ei hun
Heb feddwl, tra fo yma 'n byw,
' 'rhaid iddo 'mddangos ddydd mawr Duw!

2. Er nawr mai melus gwŷn a chwant,
fe â 'r meluſder hwnnw bant;
Ac erchyll ddychryn ddaw i'w lê,
y dydd y barno Duw 'n ddible.

3. Bydd dychryn mawr, a gofid triſt,
i bawb heb grêd yn Jeſu Griſt?
Ond bydd llawenydd pawb mor fawr,
a gretto 'n Jeſu Griſt y nawr,

4. Duw llidiog a fydd yn llawn gwg,
yn y dydd mawr, i bob dyn drŵg!

Ond

Ond ſerchog hyfryd fydd eu Duw,
i'r rhai crediniol, dduwiol ryw.

5. Can's yn yr Jeſu bydd y rhain,
yn gyfiawn bur, yn bêr ei ſain;
Yn uchel fry, mewn nefol fraint,
yn hyfryd hardd uwch law pob haint.

6. Cynhyrfed hyn ein c'lonnau ni,
i ddwe'yd Amen Criſt tyred di;
A nertha 'n ffŷdd, heb ffaelu, nawr,
i dduwiol ddiſgwyl y dydd mawr.

HYMN XXVII. Meſur hîr.

Y rhai ſy'n aros Yngbriſt fyddant yn ddigywilydd ger ei fron ef yn ei ymddangoſiad.

MOR fawr yw'n braint, tu yma i'r bêdd,
cael aros nawr, yng Nhriſt mewn hêdd,
A phan 'ddangoſo efe, ryw ddŷdd,
bydd, gydag ef, y ſaint yn rhŷdd.

2. Mewn hyder hardd, y byddant oll,
heb un o'r rhain, i gyd ar goll;
Pan bo 'r rhai drwg heb un rhyw fraint
ond deibyn llîd mor llawn ei faint!

3. Pan y bo' c'wilydd calon, clyw,
ar yr holl annuwiolion ryw.
Fe fydd pob criſtion, gyda 'i Griſt,
heb gywilydd, ac heb galon driſt.

4. Mor bur, mor beraidd ydyw 'r bûdd,
o gadw gyd a Chriſt, trwy ffŷdd;
Ond rhaid yw bod y bûdd yn fwy,
pan, gweler Jeſu gyd â 'nhwy.

5. O canwn, nawr ein cerdd i'r Oen;
fe'n dŵg ar fyr i dîr heb boen,

A byddwn ffyddlon iddo ef,
can's daw, ar fyr i'n dwyn i'r nêf.

HYMN, XXVIII mesur Cyffredin.

Am Swpper yr Arglwydd.

WRth fynych drin yr Ordeinhad,
ceir cymmun gwa'd yr Jesu;
A thrwy fawr rinwedd gwaed yr Oen,
caiff Seion wîr orchfygu.

2. Mae gwlêdd yn rhâd yn nhŷ ein Tâd;
o'i gariad fe'i gosododd;
Lle'r ŷm ni 'n cael, gan y Duw hael,
fawr fraint; nid gwael yw'n gwleddodd.

3. Cael do'd ynghyd fel hyn i gyd,
er cymmaint llîd pob gelyn;
Cael cylchu .r bwrdd, cael bwyd mor ber;
cael hyder yma wed'yn.

4. Rhown glôd yn rhwydd, i'n harglwydd hardd,
fu yn yr ardd, yn chwysu;
A chadwn gariad, cwlwm gwiw;
cawn gyda 'n Duw deyrnasu.

5. Pryd hyn fe fydd ein gwlêdd yn fwy,
a hynny trwy drugaredd,
Fe fydd ein c'lonnau (clwyfus nawr,)
pryd hyn, mewn mawr orfoledd.

HYMN. XXIX. mesur Cyffredin.

Crist yn ceisio, a chadw, pechaduriaid colledig.

CRist, gwîr Fâb Duw ddaeth yn Fâb dŷn,
nid oedd fâth un i ddyfod,
Fe geisiodd, gadwodd ddynol ryw,
oedd heb un Duw mewn cymmod.

2. Y rhai, ar gôll oedd bawb i gyd;
Ond Criſt mewn pryd a'u coſiodd,
Gan farw dros ei ddefaid mwyn,
a thros ei wyn o'i wîrfodd.

3. Mor fawr oedd cariad Jeſu Griſt,
pan aeth dan athriſt boenau;
A rhoddi 'i hun dros gynddrwg rhai,
i'w brŷs ryddhau o'u beiau.

4. Mewn cywyr aberth rhown ein clôd,
trwy 'r hynod aberth hynny,
I Dduw o hyd tr'o ni 'n y byd,
rhown fawl ynghyd am Jeſu.

HYMN. XXX. meſur Cyffredin,

Ar ol Swpper yr Arglwydd.

CLod fô i'r Arglwydd Dduw, o'i Râs,
a drefnodd deyrnas nefodd;
Trwy Griſt mae'n rhâd, i blant y Tâd,
mae'n werth ei waed o'i wirfodd.

2. A Brenhin hêdd a drefnodd wlêdd,
o'i fawr drugaredd hyfryd,
I lonni 'r plant ſy'n fawr ei chwant,
am fwyniant ei wynebpryd,

3. Ca's f'enaid heddyw fraint ddifrâd,
cael cyd fwynhâd o honi;
Ac edrych draw trwy 'r dellt ar Griſt,
p'am bydda'i driſt ond hynny?

4. Rhown fawl, bob dŷn, mewn peraidd dôn,
o'n calon i'n hanwylyd;
Am gael y fraint, ſy fawr o fri,
i'n llonni nawr mor hyfryd.

HYMN

HYMN XXXI meſur hir.

Y pechadur yn cwyno ei lygredd, ac etto yn hyderu, am oruchafiaeth.

CReadur wyf fy wedi d'od,
trwy allu Duw, fel hyn i fod,
Ond trwy fy llygredd ffoledd cás,
'mron darfod r wyf, O Dduw rho râs.

2, Bum lawer tro mewn rhyfel twym,
er hyn i gyd fe'm rho'w'd yn rhwym,
A gwelaf nad oes neith i'w gael,
i'w roi i ddŷn, onid gan Dduw hael,

3. Er cymaint ſcîl gan ſatan fŷdd;
trwy allu Duw mi 'nilla 'r dŷdd;
Er ca l fy nhaflu lawr i'r dom,
trwy allu Duw caiff ſatan ſiom,

4. Er dwe'yd o'r diafol dyfal drŵg,
fod Duw yn dala i mi ŵg.
Fe ſiomir ſatan, gwnair ryw ddŷdd,
pan bwyf trwy Griſt a'n nhraed yn rhŷdd.

HYMN XXXII Meſur cyffredin.

Y duwiol yn hiraethu am gymmwyſiad i foliannu Duw, tan yr olwg o'r cymmhwyſder ſy yn y Saint uchod.

MAE 'r ſeintiau, ſu ferthyron frŷ,
ymhlith y llû diſgleiria';
Yn moli 'n wŷch, heb eiſiau drŷch,
gan edrych ar Jehoſa.

2. A minnau'n llwyr iſlaw i'r llen
yn d'we'yd, Amen Dduw mwyna;
Rho dro ar frys, i lawr o'th lŷs,
gwna ni 'n gyſſurus yma.

3, A

3. A gwnâ 'ni gael o'r freiniol fraint,
fel y mae 'r ſaint ſydd uchod,
A gâd 'ni gyd, O Dduw, heb goll,
gael ryw bryd, oll, gyfarfod.

HYMN XXXIII. Meſur hîr.

Yr enaid duwiol yn glynu wrth Dduw.

MAE f' enaid i, yn fawr ei frŷd,
am lynu 'n ddwys, wrth Dduw, o hŷd,
'Rwy'n chwennych dilyn ar ôl Duw,
am bur gyfeillach, tra fw'i byw.

2. Mae'm ffŷdd i nawr yn ceiſio 'mla'n,
am golwg 'glûr ar Jeſu glân,
Ac 'r wyf am lynu wrtho êf,
er gwaetha 'r gelyn calon grêf,

3. Mae gyda'm Duw drugaredd râd,
âf atto ef, trwy Grift a'i wa'd;
Mae gantho ef addewid fawr,
mi 'lynaf wrtho ef yn awr.

4. Maddeuant ſy gan Dduw, i ddŷn,
a hyn ar gyfrif Crift ei hun.
Mi lynaf innau am gael hyn;
O Dduw rho nerth i lynu 'n lly'n,

5. Am wîr ddiddanwch yr wyfi,
O Dduw yn glynu wrthyt ti;
Am gyſſur yn fy enaid drûd
y glynaf fi, wrth Dduw o hŷd.

6. Am nerth i bara yn y bla'n
y glynaf i wrth Jeſu glân,
Pwy wyr na chaf i fyn'd i'r lann,
er gwanned wyf i'r hyfryd fann?

7. Mae f' enaid i am foli Duw
A hyn tra fwy'n y byd yn byw,

Ac hefyd bod ar ddiwedd bŷd,
mewn hwyl i foli Duw o hŷd.

8 Rwy'n chwennych bod ynglŷn wrth Dduw,
tra fyddw'i yn y byd yn byw;
Rwy'n chwennych bod, fry gydag êf,
a'm llafar gyda llu y nêf.

9. Mae f' Arglwydd yn fy ngolwg i,
mae gennif wrthrych, Un a Thri!
Am dano daeth dadguddiad nêf,
a minnau a'i moliannaf êf

HYMN XXXIV. Mesur cyffredin.

Genau Crist yn felus odiaeth.

O Melus jawn yw genau Crist,
i'r cristion trist galarus,
Er bod saith waith mewn trallod maith,
daw diwedd taith gyssurus.

2. Mae Crist yn hawddgar ymhob rhan,
i'r dynion dan ei llwythau,
A chanddyn hwy wîr brofiad prudd,
o 'uogrwydd am bechodau,

3 Mor felus mae ei rinwedd êf,
yn atteb llêf, llyddedig;
Daw'r 'ddewid ddwys ddaeth oddi fry,
trwy 'r Jesu, 'n gyflawnedig.

4. Mor felus mae fy enaid i,
'n ymborthi ar yr Jesu;
O cadwed Duw fi rhag bob rhwyd,
tra'r Jesu'n fwyd i'm porthi.

5. Gwir gyfaill ffyddlon ydyw Crist,
i'r dŷn dan drist ddoluriau,
Fe haeddai gael y parch ar clôd,
ar gwîr ufudd-dod goreu.

HYMN

HYMN XXXV. Meſur cyffredin.

Braint y Saint, trwy Griſt, ar ol y Groes.

PRofiadol yw 'r profedig doeth,
o biccell boeth y gelyn,
Er bod yn hîr yn dioddef cur,
mae diwedd pur yn canlyn.

2. Clywn, llawer jawn o wir blant Duw,
ddioddefodd friw dolurus,
Ond Criſt yn wîr a aeth dan gur,
i'w dwyn o'r tîr twyllodrus.

3. Cant hwy i gyd foliannu nghŷd,
y Jeſu clud a'u cododd,
Am iddo ef foddloni 'r Tâd,
â'i werthfawr waed o'i wirfôdd.

4. O pwy all ddangos hyn ar go'dd?
ſef gymmaint gafodd Criſtion,
Heb law a gaiff ymhen y daith,
'nol trallod maith cael coron!

HYMN XXXVI Meſur cyffredin.

Y Duwiol yn myned yn y blaen, trwy ras er cymmaint ei Drallodau.

RWy'fi 'n bwriadu mynd ymlaen,
er mawr a man elynion;
A hyn trwy gywir nerth grâs Duw,
er bod yn fyw 'nghafeion.

2. Bum lawer gwaith mewn tywyllwch du,
heb fedru jaith i ddywedyd,
Ond mewn mawr drallod trymaidd blîn,
yn wael fy llûn, gan adfyd.

3. Yr wyfi etto,'n fynych iawn,
ymron yn llawn ammheuon,

Gobeithio'r wyf, er hyn i gyd,
cant fyn'd, ryw bryd, o'm calon.

4. O mor dda yw yr Arglwydd Dduw,
i'r rhai fy'n byw yn ffyddlon,
Etto nid eu ffyddlondeb hwy,
a haedda fwy o roddion.

5. Ond cariad Duw, fy roddwr rhâd,
ar gyfrif gwaed yr Jefu;
Clodforwn ef a llafar lêf,
rhown fawl hyd nêf, am hynny.

HYMN XXXVII. Mefur cyffredin.

Dyn yn dechreu gwella o glefyd mawr, ac yn dechreu canu i'r Arglwydd.

O Arglwydd Dduw y lluodd mawr
edrych i lawr o'r nefoedd,
Ar wael bechadur fu yn bod,
'mron cyfgod angau cyhoedd.

2. Y dŷdd gofynwn am y nôs,
a ydyw 'n agos bellach?
Y nôs gofynwn am y dŷdd,
mae rheiflwm ffŷdd yn gallach.

3. Gogoniant fyth, fo i'th enw di,
am fraint i mi mor hynod,
Sef am i't laefu'r cyftydd mawr,
a'm bwriodd lawr, yn barod.

4. Os galw wnâi y gennad hon,
oddi wrth fy mron heb fendith,
Ni allaf lai na chredu'n fiŵr,
daw i mi ftŵr a mellith.

5. O Arglwydd rho dy fendith fwyn,
a hynny gŵyn fy nghalon,

Gwna

Gwna i mi 'th garu 'n fawr o hyd,
a rho i mi yſpryd union.

6. Mae ynof lawer iawn o ddrŵg,
mae rhai yn amlwg ddigon;
Ac eraill ſydd yn ddirgel jawn,
O lladd hwy 'n llawn o'm calon.

7. Yn fy mawr glefyd a ro'iſt im,
addewid wneuthum innau,
Y rhodiwn lwybrau 'r nef yn wêll,
a phêll fu f' addunedau.

8. Yn d'enw di y gwneuthum hyn,
rhô nerth i ganlyn hynny;
Gwnâ 'm henaid bâch i fod yn jâch,
rhô o'th gyfeillach i my.

9. Rwyf nawr yn wan a bwriad crŷf,
i fod yn hŷf i'th ganlyn;
Ond os cryfhâf i'r nerth y bum,
daw llygredd llym im' dilyn.

10. Nawr diſgwyl 'r wyf gael genyt ti,
nerth i orchfygu hwnnw;
A thrwy dy nerth bwriadu 'r wyf,
i ddofi 'r nwyf ſydd chwe.w.

11 A'm hiraeth ſydd, o Arglwydd cu,
am nerth i brynu 'r amſer;
Trwy gymmorth grâs mae'm bwriad i,
i'th ganlyn di mewn hyder.

12. Rho nerth im' Arglwydd fod yn hŷ,
gan ddyblu fy niwydrwydd,
Gwna fi 'n offeryn er dy glôd;
trwy hyn caf fod yn ddedwydd.

13. Gwnâ fi yn ffyddlon yn fy nŷdd,
gwna fi yn rhŷdd o'm lleſgedd,

Rho 'th râs i'm nerthu ' fod yn llyn,
a derbyn fi 'n y diwedd.

14. A hefyd rho im' hyn o fraint,
' fod gyd a'th ſaint mewn llwyddiant,
Trwy wneuthur hyn o waith yn rhâd,
cai dithâu 'r Tad ogoniant.

15. Cei foliant gan angylion nêf.
a'r ſaint â'u llêf cyd-ganant :
Duw ſy'n rho'i pob trugaredd fawr,
Duw roddo lawr in' lwyddiant.

HYMN XXXVIII. Meſur cyffredin.

Am ffydd.

MAE gwîr air Duw yn dyweyd yn hŷ,
fod rhaid in' gredu 'n raſlon ;
Cyn gallom ryngu bodd ein Duw,
nac chwaith i fyw yn ffyddlon.

2. Rhôdd Duw yw ffŷdd, a'i rhoi mae'n rhâd
a hyn trwy waed 'r Offeiriad ;
Y rhai ſ' a ffŷdd, na fyddant ſwrth,
ond glynu wrth eu Ceidwad.

3Ffŷdd yw'r llygad ſy gan y ſaint,
i weld eu braint ſydd barod ;
A ffŷdd yw'r llaw ſydd gan bob un,
i dderbyn rhôdd y drindod.

4. Trwy ffŷdd gorchfygant fŷd a chnawd,
' does un yn dlawd o honynt,
Trwy ffŷdd derchafant at Dduw lêf,
a Duw o'r nêf fydd droſtynt.

5. Peth buddiol nawr yn Seion ſydd,
yw bywiol ffydd mewn ffyniant ;
Ond bydd i'w llygaid fod ar led,
yn gweled, mewn gogoniant.

HYMN

HYMN XXXIX. Meſur cyffredin,

Ar ol ſwpper yr Arglwydd

O Arglwydd dercha d' wynebpryd,
yn hyfryd ar ein henaid ;
Y rhai ym nawr ynghyd yn cwrdd,
o amgylch bwrdd bendigaid,

2. Gwna ni'n ddiolchgar am ein braint,
a thyn bob haint oddi wrthym,
Gwnâ'n gwaith yn ſanctaidd ar bob pryd,
bydd hyn yn hyfryd gennym.

3. Er llâdd yr Oen, mae etto 'n fyw,
mae'n rho'i i Dduw foddlonrwydd !
Ac ar ei glwyfau rhown ein ffydd,
am fraint a bûdd tragywydd.

4. Ac am y fraint fawr hyfryd hon,
o'n calon byddwn ddiolchgar,
Ac nac anghofiwn Griſt ein brawd,
aeth dan y gwawd yn gynnar.

HYMN XL. Meſur hîr.

Yr Enaid gwan yn ymgyſſuro yn Nuw dan ei wendidau preſennol.

FY enaid bâch rho'th bwys ar Dduw,
tra b'oſt ti yn y bŷd yn byw,
Ac di gae ddyfod wedi hyn,
at frenhin nêf i Seion fryn.

2. O na ofidia dan y groes,
ond cofia Griſt fu yn dioddau'r loes,
Ti gai dy ddwyn tu fewn i'r llen ;
ti dd'wedaiſt lawer gwaith Amen.

3. Er bod gofidiau o bob tu;
ac hefyd it' elynion lu;
Di gai wel'd diwedd ar y gâd,
fy'n dwyn gelyniaeth it' a brâd.

4. O f' enaid paid a blino'th hun,
mae Duw erioed i ti yr un,
Ac fel i'th garodd cyn bod bŷd,
fel hynny fe'th gâr di o hŷd.

5. Ac er dy fod yn lleſg a gwan,
yn ofni gofid ymhob man,
Ni âd dy Dduw di ' fyn'd ar goll,
fe 'th weryd di oddiwrthynt oll.

HYMN XLI. Meſur cyffredin.

Y Duwiol am feddiannu gwell na rhith duwioldeb.

MAE holl weithredoedd Duw yn bur,
mae'i natur yn ddoethineb;
A'r rhai fy'n byw, a Duw'n eu plith,
fy â gwell na rhîth duwioldeb.

2. Fe all fod rhai, yngolwg dŷn,
a lliw a llun duwioldeb.
Heb fod yn bod o galon bur,
yn meddu gwîr rafoldeb.

3. Nawr amſer drwg yſywaeth fydd,
heb fawr o ffŷdd ac undeb,
A llawer fydd yn byw dros byth,
heb ddim ond rhith duwioldeb.

4. A ninnau fuom fyw yn hîr
heb feddu gwîr ddoethineb,
A Duw biau'r clod os caw'd i'n plith,
beth uchlaw rhîth duwioldeb

5. Am 'r hyn a roddech, Dduw i'n nawr,
o'r fuddiol fawr dduwioldeb,

Bydd

Bydd i ti glod, ein Harglwydd da,
dros hyfryd drag'wyddoldeb.

HYMN XLII. Meſur hîr.

Trwy ffolineb pregethu y cedwir y rhai ſy'n credu.

ER bod pregethu 'r Jeſu 'n brudd,
yn weithred ffôl gan rai heb ffŷdd,
Trwy 'r weithred hon fe gaiff y praidd,
eu galw o'r bron o ddwylaw'r blaidd.

2. Er bod dyfodiad Criſt yn wâs,
yn llwyr beth ffôl gan rai di râs,
Er hyn i gyd, trwy 'i gyflwr tlawd,
y daeth i ni i fod yn frawd.

3. Mae Duw yn cadw enaid dŷn,
a hynny trwy ei Fâb ei hun,
A thrwy gyhoeddi hyn i ma's,
mae defaid Duw 'n cael porfa frâs!

4. Y rhai ro'nt grêd i 'fengyl Dduw,
er iddynt farw hwy gant fyw;
A hwy gant hyfryd ddiwedd taith,
'nol credu 'r gwir, a myn'd trwy gwaith.

5. Am hyn moliannwn Dduw yn brûdd,
gan gadw gydag ef, trwy ffŷdd;
A diſgwyl cadwedigaeth râd,
trwy Jeſu Griſt, a'i werthfawr wa'd.

HYMN XLIII. Meſur hîr.

Myfyrdodau am Dduw.

MAe myfyrdodau, peraidd prûdd,
gan bawb o'r duwiol, yn eu dŷdd;
Am Dduw ei harglwydd hynod hŷ,
ſy'n rhôi 'r fâth freintiau, oddi fry.

2, Mae

2. Mae ganddynt gôf o'r cariad pur,
ddangoſodd Criſt wrth ddiodde' cûr,
Y maent yn meddwl am y gwawd,
ga's Jeſu Griſt, eu hanwyl frawd.

3. Ac wrth fyfyrio 'mhethau Duw,
mae 'u ſprydodd hwy yn fwy yn fyw;
Gan lawenychu yn y Tâd,
a d'we'yd, trwy Griſt, cawn bardwn rhâd.

4. Mae peth llywenydd pur yn awr,
er methu gweld ond 'chydig, lawr,
Ond pan y gwelir gwawrio 'r dydd,
fe gair llawenydd mwy nag fydd;

5. Ac yna, mawr a fydd ein braint,
a myfyrdodau môr, mewn maint:
Ac yna cawn foliannu 'n brûdd,
pan delo golwg yn lle ffŷdd.

HYMN XLIV. meſur Cyffredin

I gyfeillion, a fyddo gyd a gwraig a ryddhaer o gyfyngder, yn achos eſgoredigaeth, i foliannu Duw ar ei rhan.

RHai ym ynghyd rhown glod yn rhwydd,
i'r Arglwydd Dduw trag'wyddol;
Am fawrion freintiau, ro'w'd o fôdd,
i bobloedd anhaeddiannol.

2. Ac felly nawr mae'n braint ni 'n fawr,
ar ddaear glawr, i'w ddarllen;
Can's Duw a'n cofiodd yn ei bryd,
fe'n gwnaeth i gyd yn llawen.

3. Er rhoddi coſp gan Dduw i'r wraig,
am gredu 'r ddraig, wenwynol,
A'r goſp yw'r poen wrth eni 'r plant,
a'r aflwyddiant preſennol.

4. Er

4. Er hyn i gyd, ni 'dawodd Duw
y wraig, heb ryw fawr gymmorth;
I ddôd trwy'r poen a'r gofp a ga's:
daeth Duw a'i ma's o'r ammorth.

5. Am fam a phlentyn fydd yn fyw,
rhown oll i Dduw anrhydedd;
Am freintiau rhyfedd in' o'r bron,
mawr droion o drugaredd.

HYMN XLV. mefur Cyffredin

Am gariad Crift.

HIraethlon yw pob grafol ddŷn,
am gyffan mîn yr Jefu;
Sef cael amlygiad mwy, mewn bod,
o'i gariad hynnod hynny.

2. Sef cariad rhâd, a ro'ir yn rhwydd,
gan Jefu 'n Harglwydd hoyw;
Mae 'i ffrwyth yn amlwg i bob faint,
trwy 'i fawr ddioddefaint chwerw.

3. O cariad Crift fydd gariad pur,
mae'n gwella cur yr enaid;
Clywn, cariad rhyfedd, cariad mawr,
amlygwyd lawr i weiniaid.

Dlddechreu, a diddiwedd, yw,
rhâd gariad Duw, i'r duwiol;
Diddiffyg yw, ymhob rhyw ran,
a hynny 'n an nherfynol.

5. Canmolwn ni Dduw, Un a Tri,
am beraidd fri, mor barod;
Ac nac anghofiwn tr'om ni byw,
roi clôd, i Dduw, mor hynod!

HYMN XLVI meſur Cyffredin

Annogaeth i ddyſod wrth alwad yr Efengyl.

Rhowch glyſt, gwrandewch, mae Duw'n dwe'yd
trwy Griſt, chwi gewch 'tifeddiaeth, [dewch
Gadewch y gelyn ſatan, cas,
gan Dduw, cewn wir râs odiaeth.

2. Na roddiwn lwybrau ſatan mwy,
ffordd Duw ſydd fwy rhagorol;
Gadewn waith gelyn llawn niewn llid,
gwaith Dduw, i gyd, ſy'w ganmol.

3. Mewn teimlad dewn a'n llwyth mawr bwys,
gan ddo'd yn ddwys at Jeſu,
Mewn cariad, gobaith gwych, a ffŷdd;
daw i'n fawr fudd o'i feddu.

4. Gogoniant, fyth, i frenin nêf,
am alwad grêf, mor hyfryd;
Rhown innau fawl i'r brenin byth,
tro ynom chwyth neu fywyd.

5. Mae mynych ſôn am alw 'r ſaint,
i feddu 'r fraint ſydd uchod,
Bydd moliant mawr i Dduw Amen,
pan del i ben y d'wrnod!

HYMN XLVII Meſur Cyfredin

Yn awr yr adwain o ran ond yna &c.

YN awr o ran yr adwain i'
y Duw, ſydd fry 'n preſwylio;
Ond cyn bo hir, ceir gweld yn wêll,
heb ſod ymhêll oddi wrtho.

2. Yn awr ni wêl y ſeintiau gwych,
ond fel mewn drych, o'u pethau.
Yn awr mae golwg ffydd mor wan,
heb weld ond rhan, yn ddiau.

Ond

3. Ond caiff y plant, er maint fo'r plê,
'nol myn'd i'r lle diſgleiria,
Wîr wel'd eu braint, yn eglur wŷch,
ac nid mewn drŷch, fel yma.

4. Mae moddion dâ, gan Dduw, i'r dŷn,
o'i drefn ei hun fe'i dododd,
Er cynnydd wêll i'r olwg wann,
a'i dŷ yw 'r mann ' goſododd.

5. Rhown glôd i Dduw am wel'd mewn rhan,
y pethau purlan odiaeth,
Gan ddiſgwyl cael eu gweld fel ' cair,
a golwg ddiſglair berffaith.

HYMN XLVIII. Meſur cyffredin.

Ar ol ſwpper yr Arglwydd.

NI a gawſom nawr, ryw wlêdd werthfawr,
cyn cwrdd a'r mawr gyfnewid,
Pryd caiff y ſaint wlêdd fwy mewn maint,
llê ni bydd haint a gofid!

2. Nid oes fath le ag eglwys Dduw,
i'r criſtion byw, fod yntho;
Nes myn'd i'r nê', ſydd ſanctaidd lê,
tu draw i'r angau i dario.

3. O pwy na chanai i'r nefol Dâd,
am wlêdd mor rhâd a'r Jeſu!
Dewn nawr, ynghyd, o lwyr lawn frŷd,
rhown glôd i gŷd dan ganu.

4. Gan i ni nawr gael do'd i gwrdd,
o amgylch bwrdd yr Arglwydd;
Ni a ganwn glôd i'n Harglwydd Dduw,
mewn gobaith byw 'n dragywydd.

5. Mae clôd yn perthyn i Dduw'r Tâd,
i Griſt am waed i'n prynu;

Ac i'r gwir yſpryd ſy'r un rhyw,
mae 'r tri 'n un Duw i' addoli.

HYMN XLIX. Meſur cyffredin.

Am druenus gyflwr dyn naturiol.

TRüenus jawn yw cyflwr dŷn,
wrth natur, ſy'n annuwiol;
Mae 'n farw ſyth mewn cyflwr fâl;
waith hyn ni thâl ei ganmol!

2. Ni theimla ddim, ni chlyw, ni wêl'
ni 'rchwaetha 'r mêl meluſa';
Mae holl ſynhwyrau hwn ar gôll,
mae ynte' oll mewn dalfa.

3. Can's trwy fawr bechod, dŷn a aeth,
i gyflwr caeth, rhyfeddol;
Fel hyn wrth natur, 'r ŷm ni i gŷd,
heb wîr fywyd yſprydol.

4. Nes delo 'r Arglwydd, hylwydd hael,
i'n dwyn o'n gwael garchardu;
Trwy alwad nefol, raſol râd,
mae Duw ein tâd i'n tynnu.

5. O molwn Dduw, a melus fawl,
am hawl mewn bywyd nefol.
A chyn bo hîr, cawn fyn'd at Dduw,
lle cawn ni fyw 'n drag wyddol.

HYMN L. Meſur cyffredin

Adnabod y rhai ſy 'n rhodio gyd a'r Jeſu.

YDuwiol rai ſy 'n a fer bôd,
yn hynod gyd a'r Jeſu;
Hwy adnabyddir ddynion byw,
mae ſi wythau gwiw 'n amlygu

Mae

2. Mae hyfryd fûdd i'r rhai a f'o
yn rhodio gyd a 'r Jeſu;
Am hyn chwychwi ſy'n arfer bod,
rhowch iddo glod dan ganu.

3. Mae ordeinhadau, gwych eu rhyw,
a ro'w'd gan Dduw i'r rhei'ny;
Llê gallant gael cyfeillach Criſt;
na fyddant drift ond hynny.

4. A'r rhai ſy 'n cadw gyd a 'r Oen,
ni bydd eu poen yn hir-faith.
Hwy ddon' yn lân at ſanctaidd lû,
'nol myn'd o'r tŷ amherffaith.

5. Am hyn rhown glôdi 'n Harglwydd dâ,
gan gadw gyd a 'r Jeſu;
Yn ôl cael myn'd i'r nefoedd faith,
ni dderfydd gwaith moliannu.

HYMN LI, Meſur hîr.

Ymddiried yn Nuw ac nid yn ein cyflawniadau.

O Dewn i gŷd, o lwyr lawn frŷd,
i roddi mawl i Dduw mewn prŷd,
Yn uniawn aberth gywrain gwiw;
i'n brenhin mawr a'n Harglwydd Dduw,

2. Ein dyled yw, tro'm ni 'n y bŷd,
i roddi 'n goglyd gwiw i gŷd,
Ar Dduw yn llwyr, ein llywydd llawn,
bob dŷdd, y bore a'r prydnhawn.

3. Nac ymddiriedwn yn ein gwaith,
nac un peth welom ar ein taith,
Ond ymddiriedwn yn ein Duw!
'fe 'n unig ſy 'n ein cadw 'n fyw,

4. O rhown i Dduw ein haberth llwyr,
o felus fawl o fore i hwyr;

Gan ddiſgwyl am yr amſer gwŷch,
i ganu fry uwch ſpien ddrŷch,

HYMN LII. Meſur hîr.

Criſt yn cyfflawnu'r gwaith, a roddwyd iddo.

EIn harglwydd ni, ſef Jeſu cu,
a ddaeth i lawr o'r nefoedd frŷ;
I wneuthur gwaith y Tâd o'r nêf,
fe'i gwnaeth, ac a'i gorffenodd ef,

2. Waith bod y gwaith mor faith, mor fawr!
fe roddodd Criſt ei einioes lawr!
Fel caid y gwaith i gyd i ben,
cyn 'r elai Criſt tu fewn i'r ilen.

3. Ac amcan Criſt wrth weithio'r gwaith,
oedd dwyn i mewn gyfiawnder maith;
A gwir ddiniſtrio 'n gelyn mawr;
a thynnu nerth y llew i'r llawr.

4. O pwy yſtyriai ddyled maith,
a Chriſt o ran yn gweithio 'r gwaith,
Ac ni r'o fawl i'r drindod frŷ,
ei hoffi ef a'i garu 'n gu?

5. Ein henaid fo'n clodfori Duw,
tra bo'm ni yn y bŷd yn byw;
Gan ddiſgwyl bod uwch pob rhyw boen,
ryw bryd, trwy'r hyn a wnaeth yr Oen.

HYMN LIII. Meſur cyffredin.

Dymuniad y Duwiol, gofydus, am ymgeledd Duw.

ODduw toſtyria wrthyf fi,
trwy roddi dy drugaredd;
Sef grâs, a nerth, i'th foli di
trwy hyn caf i ymgeledd.

2. O Dduw ti weli 'r llygredd llym,
ſy'n grŷf, ei rym, a'i rwyſgedd
Yn fy ngorchfygu 'n fynych iawn,
o eiſiau llawn ymgeledd.

3. Och! ſatan ſydd, yn fawr ei dwrdd,
i'm tynnu ffwrdd trwy lygredd:
A finnau ſydd, O Dduw, yn wan;
rho 'rŵan im' ymgeledd.

4. Mae 'r drŵg yn fyw, a fi 'n afiâch,
O caffed bellach ddiwedd;
Mae hwn mor grŷf mae i mi 'n bwn,
na chaffed hwn ymgeledd.

5. Na 'm dalier i gan bechod mwy,
fel ' gwnaethpwyd trwy fy llygredd,
O Dduw mae f ' enaid i yn driſt,
rho, trwy fy Nghriſt ymgeledd.

6. Hiraethu 'r wyf, O Dduw, bob dŷdd,
am fyn'd yn rhydd o'm llygredd;
Hiraethu yr wyf am we'ld yr awr,
i gael rhyw fawr ymgeledd.

7. Mae'r grâs yn fâch a'r ffordd yn hîr,
i fyn'd i dîr anialedd;
Ond Duw rho di o'r manna ' lawr,
trwy hwn câf fawr ymgeledd,

8. Mae 'm llygredd i yn llanw 'n llym,
pan b'wyf heb rym dy rinwedd;
Ac anghrediniaeth ddwêd yn hŷ,
nad oes i mi ymgeledd.

9. O Arglwydd gwêl fy nghyflwr tlawd,
on'tê gwnair gwawd o'm lleſgedd;
Er bod fy llygredd fel y llî',
mae gyd â thi ymgeledd.

10. 'Nghydwybod i fy 'n dala gŵg,
waith grymmus amlwg lygredd,
Yr hwn fy 'n rhŵo, o bob rhyw,
rhag hwn O Dduw rho 'mgeledd,

11. I'm cylch i fatan fy a'i lû'
waith hyn rho di drugaredd;
Fel 'daliwyf ma's er gwaetha nghâs,
a hyn trwy frâs ymgeledd.

12. Dy faint di gynt fu wŷch ei hynt,
er gwaetha gwynt a gwagedd,
Rho nerth i fryfio ar ei hôl,
trwy gael, o'th gôl, ymgeledd.

13. Yn ol myn'd dros Jorddonen draw,
ni ddaw, dan llaw ddim llygredd;
Can's os câf fyn'd fry uwch llen,
câf gan fy Mhen ymgeledd.

14. Pan del y faint i gyd i'r nêf.
gwych fydd y llêf gorfoledd,
A finnau, os caf fod yn eu plith,
câf yno fyth ymgeledd!

15. O Dduw pryfura'r fabboth ddŷdd,
pryd derfydd yr holl lefgedd,
Ac 'bydd dy faint, trwy 'th dduwiol ddawn,
yn gyflawn o ymgeledd!

HYMN LIV. Mefur cyffredin.

Am Sicrwydd.

CLYWN braint a roddwyd i blant Duw,
oedd ficrwydd gwiw o'i gariad,
Mae 'n erchi 'mofyn am y fraint,
O gwelwch faint eich galwad.

2. Am ficrwydd mae addewid Duw,
i'w chael er byw 'n 'r anialwch;

Ma

Mae ſôn am lawer ga's, trwy hyn,
eu dwyn i fryn diddanwch.

3. Er, nawr, bod llawer un o'r ſaint,
heb feddu 'r fraint ragorol ;
Mor gyflawn ag chwennychent hi,
mae 'r rheini i gadw 'r rheol.

4. Boed i ni ddilyn, tra fo'm byw,
y ffordd ' mai Duw yn dangos ;
Ar ei law ef mae rhoddi 'r fraint,
a thynnu 'r haint o hîr-nos !

5. Gogoniant fyth fo i'n Duw ni,
am ſicrwydd ſy mor hyfryd ;
O Dduw, rhô 'r fraint i ni, o'n bron,
â ch'lonnau ſtyddlon hefyd.

HYMN LV. Meſur cyffredin.

Llafuriwch, nid am y bwyd a dderfydd.

POB dyn, wrth natur, ſydd yn ffôl,
yn myn'd ar ôl oferedd ;
Heb feddwl fawr am feiau triſt,
nac eiſiau Criſt, na 'i rinwedd,

2. Dŷn ſy 'n llafurio 'n ffôl ei hynt,
am beth fel gwynt a dderfydd,
Gan eſgeuluſo 'r bara gwiw,
ſy 'n gwneud rhai 'n fyw'n dragywydd.

3. Mae arnom ddyled mawr i Griſt,
am ddioddef triſt ddoluriau,
Trwy 'r rhai mae 'n fara cymmwys jawn,
i dori 'n llawn ein heiſiau.

4. Criſt ſy 'n gwahôdd a Chriſt yw 'r fraint,
gwrandewch ,y ſaint, ar Jeſu.
A rhowch ogoniant iddo 'n rhwydd,
am fara dedwydd i chwi.

5. Sef bara geidw ſywyd byth,
yn ddilyth a ſafadwy ;
A'i caffo 'ſe gaiff ſyw ar goedd,
mewn oeſoedd anrhaethadwy.

6. A'r bywyd hwn ſydd byth yn bôd,
i roddi clôd i'r Arglwydd !
Trwy nefol ddawn bendithia Dduw,
yr hwn ſy 'n byw 'n dragywydd.

HYMN LVI. Meſur cyffredin.

Rhy anhawdd i'r dyn, na ddyſgwyd gan Dduw, ddeall ei air ef.

MAE pethau 'n bod yngeiriau Duw,
anhawdd ydyw eu deall
Ond yſpryd Duw ſydd yn ei blant,
trwy 'r hwn ni fyddant angall.

2. Yr annyſgedig ſy 'n gŵyr droi,
gair Duw o'i lawn yſtyriaeth,
Tu ag at ei wneud i ddrŵg yn ſail,
mor ddrwg yw 'r adailiadaeth.

3. 'Sawl chwennych ganlyn 'ſcrythur lan,
ni ddylent weithian orphwys ;
Heb chwilio am yr union ffordd
nid canlyn cîl ffordd gyfrwys,

4. Dilynwn ffordd gwîr deulu 'r ffŷdd,
bob nôs a dŷdd yn waſtod ;
Heb ŵyro dim or geiriau dâ,
' anfonwyd yma iſod.

5. Can's teulu 'r ffydd a gerdd yn ffel,
ar ôl eu tawel Frenhin ;
Gan dynnu 'mlaen i'r annedd 'frŷ,
a hynny bob yn dippin.

HYMN.

HYMN LVII. Meſur hîr.

Cymmorth ar un cadarn,

MAE clôd i Dduw am dduwiol ddawn,
a roes i wneud dŷn llwm yn llawn,
Can's nid oedd yn ei blant i gyd,
o'u hawl eu hun ond heiddiant llid.

2. Ond, gan wel'd eu gwendidau hwy,
'ſe roddodd nerth ar un oedd fwy,
Ac a dderchafodd gadarn Wr,
i fod yn ſilfaen ſanctaidd ſiŵr.

3. Yn awr, trwy 'r Oen aeth droſom ôll,
ni chaiff un gŵr i fyn'd ar gôll!
A thrwy gynhorthwy hwn ſydd fawr,
nyni gawn nerth y Hew i'r llawr.

4, Pan dêl y Gŵr ſy gadarn dŵr,
i godi'r ſaint, uwch tân a dw'r;
Fe fydd y dawn, a'i dôn yn dwym,
gan y rhai fu'ſai gynt yn rhwym.

5, Ac O na b'ai 'n calonnau ni,
yn cadw gyda 'r cadarn frŷ:
A'n hiraeth fwy, am fod yn fyw,
yn canu gyd a 'n Harglwydd Dduw.

HYMN LVIII. Meſur hîr.

Y Saint yn golygu ardderchawgrwydd Criſt,

O Dewn ynghyd, y ſeintiau ſŷdd
yn cadw Criſt ymreichiau 'n ſtŷdd,
I weld ei ardderchawgrwydd ef:
mae nawr yn eiſtedd yn y nêf.

2 Mae 'n fwy na *Solomon*, oedd fawr,
er gwaeled 'ca's ei gym'ryd lawr,

Mae

Mae 'n fwy na nêb a fu erioed ;
myn ei elynion dan ei droed,

3. Ac er bod Criſt yn wael gan rai,
ſy a'u c'lonnau drwg yn celu bai,
Fe fydd yn ddêrchafedig iawn,
pan dêl y llwythau i'r llys yn llawn,

4. Mae 'n awr yngolwg pawb o'r ſaint,
yn fwy na neb, o freiniol fraint ;
Ond O, mor fawr o fawredd fŷdd,
pan delo golwg yn lle ffŷdd,

5. O tyred Jeſu Criſt ar frŷs,
pryſſura 'n llawn rai llon i'r llŷs ;
A doed yr amſer hyfryd gwŷch,
i wel'd dy wyneb heb un drŷch.

HYMN LIX, Meſur hîr.

Y duwiol yn cymmeryd ei gyfarwyddo gan air Duw.

GAN fod ein Duw, o'i râs, yn rhoi,
ei air, yn llawn, heb ddim yn llai ;
Ein dyled yw, [a hyn a wnawn,]
i drefnu 'n crefydd wrtho 'n llawn.

2. A hyfryd gan y ſeintiau gwiw,
gael 'ſath gyfarwyddyd at eu Duw ;
A'r gwîr hyfrydwch hyn, ſy 'n bôd,
yn troi yn glau, i Dduw yn glôd.

3. Yn awr ein Harglwydd gad i ni
gael ein cyfrwyddo gennyt ti,
Can's arnat ti y rhown ein brŷd,
am wir gyfrwyddyd llawn o hŷd.

4. Mor hyfryd i'n heneidiau, fŷdd
bod wrth fôdd Duw ar y farn ddŷdd,

Pan

Pan b'o'r diffrwyth heb un rhyw fraint,
yn derbyn llîd, mor llawn ei faint!

5. Boed clôd i Dduw, yn llawn yn llwyr,
am bob cyf'rwyddyd, fore a hwyr.
A diſgwyl 'r ŷm, fod gyd â'n Duw,
trwy Griſt yn gyſiawn, byth yn byw,

HYMN LX. Meſur hîr.

Y duwiol yn hiraethu am oruwchafiaeth,

DUW, llâdd fy llygredd, côd fi i'r lan,
i Biſga fryn, ſydd hyfryd fan!
A rho im' olwg ar y wlâd,
llê byddaf byth ger bron fy Nhâd,

2. Mae arnaf chwant, [pa bryd y câf,]
i wel'd y dŷdd a'r hyfryd hâf!
Pa bryd y câf fod o'r tu fewn
yn burdeb oll i gyd yn llawn!

3. O Dduw hiraethu 'r wyf bob dŷdd,
am fryſio 'mlaen trwy fwy o ffŷdd,
A chwennych bod, 'r wyf, uwch bob braw,
ar gelyn drwg i gwympo draw,

4. Ac os câf fyn'd i mewn i'r nef,
fe â'n ofer waith y diafol ef;
Os fi gaiff fyn'd i gôl fy Nhâd,
beth dâl i'r gelyn godi brâd?

5. Clod bŷth am ffrwythau Criſt a'i ddawn,
trwy hwn câf lâdd fy llygredd llawn,
A phan gorchfyger hwn, ryw bryd,
caiff Duw y clôd am hyn i gyd,

HYMN

HYMN LXI. Meſur hîr.

Criſt, ein hoffeiriad, yn eiſtedd ar ddeheilaw Duw.

CRIST Jeſu, ein hoffeiriad mawr,
a ddaeth, ar frŷs, o'r nêf i'r llawr,
Ac offrwm cyflawn cym'rodd ef,
trwy 'r hwn boddlonodd Dduw o'r nêf.

2. Mae nawr yn eiſte' ar law dde' Dduw,
nid byth i farw mwy ond byw;
Mae'n diſgwyl frŷ, tu fewn i'r llen,
am amſer gwŷch, a geir i ben,

3. Mae yno'n gweled nawr o hŷd,
pwy yw 'r rhai ffyddlon ſy'n y bŷd,
Ac mae e'n diſgwyl am y dŷdd,
i'r rhain fod gyd ag ef yn rhŷdd,

4 Mae'n gweled hefyd, ar bob dŷdd,
pwy yw 'r gelynion, iddo ſŷdd;
Mae 'n diſgwyl am yr amſer twym,
i roddi rhain i gyd yn rhwym.

5. O Dduw fe ddaw yr amſer gwŷch,
i wel'd dy wyneb heb un drŷch!
Pan delo hyn o bryd i ben,
cai di y clôd i gyd Amen.

HYMN LXII. Meſur hîr.

Yr enaid yn cwyno oblegid ei lygredd, ac yn ceiſio ymddiried yn Nuw.

O F'enaid tro edrych a gwêl,
mor fawr yw 'th fai, mor fach yw 'th ſêl;
Mae ynoti beth gwael tu fewn,
och! aflan beth ſydd yno 'n llawn.

2. Mae arnat ti 'r fath bechod pwn,
waith hyn cais nerth yn erbyn hwn,

Ac

Ac onid'e ti golli 'r dŷdd,
pan bydd rheitta' bod yn rhŷdd.

3. Pe cawn i oruwchafiaeth gref,
ar bechod brwnt a'i effaith êf,
Myfi dybiwn nad oes yn bod,
un gelyn a'm troi dan ei dro'd.

4. Ond pan bo pechod arna'i 'n cael
yr oruwchafiaeth [cyflwr gwael!]
Y gelyn gwanna fu erioed,
a'm try i 'n union dan ei droed.

5. O Arglwydd, tyn y gelyn hwn,
wy 'n deimlo 'n bod, i mi yn bwn,
Ac onid ê, fy enaid i,
ni fedd y fraint o'r nefoedd fry!

6. Rwy 'n chwennych ffoi yn ffel trwy ffŷdd,
am gael, trwy Grift, fy rhoddi 'n rhŷdd,
Gan farnu nad oes fraint yn bod,
ond trwy Fâb Duw fy 'r un erio'd.

7. Can's d'wedodd ef yn eglur ma's,
mai digon rym fydd yn ei râs;
Ac y perffeithir ei nerth êf,
mewn calon wan, i'w gwneud hi 'n grêf.

8. O d'weded Duw, wrth f' enaid drûd,
maddeuwyd dy bechodau i gŷd;
Ac mai pur lân a fydd efô,
a d'wedaf fi boed felly bo.

HYMN LXIII. Mefur hîr.

Y wiſg wen o gyfiawnder Criſt,

OCH! mor drüeaus y daeth dŷn,
trwy bechod brwnt, o'i chwant ei hun,

Mae mor anghyfiawn, frwnt, a noeth,
na's haedda byth, ond uffern boeth.

2. Ond mawr yw cariad Duw ein Tâd,
yr hwn o'i râs roes Grift yn rhâd;
I ddwyn ein beiau, bob yr un,
a dïodde' 'r llîd yn llwyr, ei hun.

3. A chan i'r Jefu wneuthur hun,
ar groes o bren, ar ben y bryn;
Fe a fyn werth ei waed ynghŷd;
a'i cadw 'n llwyr, rhag poen a llîd,

4. Ac er eu bod, o'u bai ei hun,
yn wael eu lliw yn ddrwg eu llun;
Mae iddynt ddifglair wifg, yn rhâd;
a hon o drag'wyddol barhâd.

5. Gwifg hardd yw hon gwaith Crift ei hun,
gwifg i'r gwyryfon bob yr un;
Gwifg ddifglair wen, nid deilen llwyn;
gwifg wych, i'r gwa'ddedigion mwyn.

6. Mae defnydd hon o 'dafedd drûd,
dim llai na gwerth gwaed Crift i gyd;
Can's bywyd Jefu, baeddwyd ef,
' gael gwifg i ni, i fyn'd i'r nêf!

7. Er anghyfiawned ydyw dŷn,
er cynddiwg yw ei liw a'i lun,
Mae 'n y wifg hon mor ddifglair wêdd
ag y cain fyn'd i'r freiniol wlêdd.

8. Mae 'n y wifg hon mor hardd ei liw,
mae 'n gymmwys i fyn'd ger bron Duw;
Bydd feintiau yndi 'n fanctaidd lon,
yn llanw llŷs y nef, o'r bron.

9. Ac ynthi hwy gant fythol fod,
yn canu n glau i'w Harglwydd glod.

Am

Am fawr aneirif roddion gwiw,
ac am dderbyniad byth at Dduw,

10. Os caf fi 'r fraint, fu cynddrwg dŷn
tybygwn ' cana'i cywch ag un ;
Can's 'r annheilyngaf fy 'no 'n bod,
a ddylai ganu 'n uwcha 'glod.

11. Pan ddel pob duwiol oll ynghŷd,
yn wraig i'r Oen bydd 'r rhain i gŷd,
Mewn gwisg wen ddisglair hyfryd hardd,
bydd hon i'w gwel'd heb neb i'w gwa'rdd,

12. Fe dystiodd Crist y daw ar frŷs,
i ddwyn ei ddisglair wraig i'w lŷs:
Mewn chwant ei wel'd, a'i wraig mor wen,
'r wy 'n dweyd o modd yn wir Amen,

HYMN LXIV. Mesur cyffredin.

Am ymddygiad addas i'r efengyl.

PAN daeth y dŷn, trwy bechod blin,
yn elyn i sanctteiddrwydd ;
Rhyn oedd ddyledus iddo mwy,
oedd melldith, trwy lidiawgrwydd,

2. Ac oni buasai Jesu Grist,
mewn cyflwr trist parhausai
Ond etto trwy efengyl grâs,
gwnaed ef yn frâs ei freintiau.

3. Ond llwyr anaddas yw bod dŷn,
yn byw 'nol gwŷn naturiaeth ;
Ac hefyd, disgwyl, diwedd bŷd,
gael rhydd-did rhag marwolaeth.

4. Gan hynny 'mddygwn ni trwy râs,
yn addas i'r efengyl ;

Gan anrhydeddu 'n Harglwydd Dduw,
a'n rhodiad cywrain cynnil,

5. Can's 'rhai broffesant grefydd grâs,
a ddylent addas rodio ;
Can's anglod mawr, i'r Bugail mwyn,
yw gweld ei ŵyn yn gŵyro.

6. O Dduw, rho râs, mewn grym a gwrês,
i harddu 'n profles beunudd ;
A chyfur rho, trwy Grift yn rhâd,
cai dithau ganiad newydd.

HYMN LXV. Mefur hîr.

Am gynhauaf, a nithiad, trigolion y byd.

CAIR gwel'd, ar fyr, ryw olwg fawr,
[O gwyn ei fyd fy 'n gwylio nawr,]
Sef gweled Crift, mewn difglair wêdd,
yn galw 'r faint i gyd i'r wlêdd!

2. A phan y byddo hyn o brŷd,
bydd rhyfedd tro trigolion bŷd :
Gwahenir 'r us a'r gwenith gwyn,
na b'ont ynghyd byth wedi hyn.

3. Ac hefyd, pan ddel Crift ; ar frŷs,
gwna wa'an rhwng gwenith pur ac ûs,
Can's 'r ûs, o'i lîd, a lyfg yn dân ;
a'r gwenith dwg i'r nêf, yn lân.

4. Can's daw cynhauaf Arglwydd nêf,
i glydo i'w 'fcubau i' 'fcubor êf ;
A mawr orfoledd fydd yn bôd,
wrth gafglu 'nghyd, 'rai difglair nôd.

5. A phan del y cynhauaf mawr,
i fedi 'n llwyr drugolion llawr?

Mor

Mor hardd fydd pob gwenithyn pûr,
ſef duwiol rai, heb drai na chûr.

6. O gwyn ei fŷd, a gaffo wŷs,
i'r lle bo'r gwenith pur heb ûs;
Cain, yno, ganu nefol glod,
o felus gan fwyn bûr tr'o 'n bod;

HYMN LXVI. Meſur hir

Megis pe byddai corph y criſtion yn lleſaru yn y bedd, neu eiriau cymmwys i oſſod ar ſedd dyn duwiol.

MI fum yn rhodio 'rhyd y bŷd,
fel y mae 'r byw ar hyn o brŷd,
Ond nawr, 'r wy 'n pydru yn y pridd
mewn gwelu oer, a gwael, ynghydd.

2. Pan ro'wn i, yn fy mywyd brau,
'r oedd im' gyfeillion lawer rai;
Ond nawr ni chair o'r rhain, yr un,
a hoffa fod lle 'r wyf fy hun.

3. Ond diſgwyl 'rwyf, cyn dyddiau pell,
gael rhan o'r adgyfodiad gwell;
A chyd a Chriſt, gael codi 'mhen;
mewn golwg wych, a'm gwiſg yn wen.

4. Can's, pan y cano 'r udgorn floedd,
mi goda gyd â 'r ſaint ar g'oedd;
A'r llygaid hyn ſy 'n llaid yn awr,
a welant Griſt, ar ddaear glawr;

5. O'r ſaint gweddiwch nawr, yn brudd,
am fore 'r adgyfodiad ddŷdd;
Can's dyna 'r pryd, pan del i ben,
y llyngcir angau 'n llwyr: Amen.

HYMN LXVII. Meſur cyffredin.

Y duwiol trwy rai yn rhagori ar bawb.

POB rhai ſydd yn ddyſgyblion Criſt,
peth triſt bod neb o'r rhei'ny,
Heb ddim rhagoriaeth yma 'n byw,
na'r dynion di-dduw heddy'.

2. Yr Arglwydd Dduw ſe rodd yn ddâ,
wîr fanna lawr i'n porthi;
A hyn at ein cael ni 'n ddilai,
ar bob rhai, i ragori

3. Am Grift, ac hefyd heddwch Duw,
a gobaith byw 'n drag'wyddol;
Fe ddylai ſod rhagorol glod,
i'r Duwdod, gan y duwiol.

4. Y rhai a gawſant 'rhoddion hyn,
rho'ent glôd, dros rym ei bywyd,
I'r Arglwydd Dduw, ſy a'i enw ſan't:
ar bawb rhagorant hefyd.

5. A'r rhai rhagorol, yma, ſŷdd,
yn byw trwy ffŷdd, yn ffyddlon;
A fyddant fry 'n rhagorol fod,
i dduw yn rhoi clôd yn gyſſon.

HYMN LXVIII. Meſur cyffredin.

Am Fedydd.

TYſtiolaeth ddwys a ddaeth yn wir;
a hynny 'n eglur ddigon,
O 'wyllys Duw 'nghylch bedydd dw'r,
a hynny 'n ſiŵr mewn afon.

Gogoniant ſyth, ſo i'r Arglwydd Dduw,
am fedydd y'w arferyd,

hynny 'n fwy, am Grift o'n bla'n,
i'r dw'r ac allan, hefyd;

3. Daeth yſpryd Duw fel c'lommen fyw,
i dyſtio 'r gwiw fodlonrwydd;
A ph'le mae 'r dyn, yn ofni Duw,
a feia 'r cyfryw Fedydd.

4. Am fedydd dw'r mae ſylfaen ſiŵr,
i wraig, fel gŵr, fo 'n credu;
Can's fe fedyddiwyd y ddau ryw,
'nol clywed [clyw] bregethu.

5. Am drochiad y crediniol rai,
Màb Duw, heb lai, fe'i harddodd;
Ac 'fe a'i harddel yn nŷdd brawd,
er cymmaint gwawd rai pobloedd,

6. O cym'rwn ofal nawr yn ddwys,
i roi 'n holl bwys ar Jeſu;
Gan fod yn ufudd iddo ef,
ddaeth làwr o'r nef i'n prynu,

7. Ac heb ymryſon awn ymla'n,
gan ſeinio cân yn firiol;
A Duw a'n dycco o fewn i'r llen,
Amen, Amen, yn hollol.

HYMN LXIX. Meſur hîr.

Am ddal yn well ar yr eſengyl.

BRAINT fawr i ddŷn a ro'wd gan Dduw,
[heb haeddu dim mae hynny clyw,]
Sef rhoddi iddo 'r 'fengyl fwyn,
oddi wrth ei ddrwg yn ddwys i'w ddwyn,]

2. Ein dyled ni yw dal yn well,
ar bethau geidw 'r bŷd ymhell.

Gan

Gan gadw 'n dda, efengyl Dduw
can's hon yw 'r ffordd, dros fyth i fyw.

3. Efengyl gras a ddaeth, trwy'r groes,
er rhoddi i ddŷn, yn nyddiau'i oes;
Ryw nefol rinwedd, rwydd, at Dduw,
a'i wneud yn gymmwys fyth i fyw.

4. Rhoed Duw, im' nerth o hyn y ma's,
i fyw yn ol efengyl gras;
Oddi wrthyf fi na choller dim,
o'i eiriau mwyn a rodder im'.

5. Rhown glod, trwy grêd am 'fengyl gras,
am Grist a gymmerth agwedd gwas;
Ac am bob braint a ro'wd i ddŷn,
gan Dduw a'i ras, a'i ddawn ei hun.

HYMN LXX. Mesur hir.

Y cyfiyddiol yn cuynfan o eisiau eryfach ffydd, a phr fiad mwy, o ſanctteiddrwydd.

TIR angof yw'm lletty eyn bo hîr,
i fynd o'i fewn rwy 'n byfio 'n wir,
Mae nerth fy natur yn gwanhau,
o ddŷdd i ddŷdd, f'oes fy 'n byrhau.

2. Tra fyddwy 'n byw yn hyn o fŷd,
hiraethlon wyf am râs o hŷd;
Yn well i fyw, yn harddu fod,
trwy Grift, am gael tu fewnol nôd.

3. Hwyrfrydig wyf i gredu 'Nghrift;
O Arglwydd nertha f' enaid trift,
Modd gallwyf gredu, yn ddi o'd,
ac yn wîr edifeiriol fod.

4. Sigledig yw fy hyder i,
am gyfnewidiadau 'r wy 'n fawr fy nghri,

I allu

I allu bod mewn hyder llawn,
dan brofiad pêr o Grift a'i ddawn,

5. Yn awr yw 'r dydd, fy gennif fi,
wrth waith fy Nuw i fod yn hŷ;
Ennyd fechan, a fi raid fod,
dan glawr y ddaear gwaeledd nod.

6. Mae angau 'n gweithio yn fy ngnawd,
er nad wyf hen, mae'm nerth yn dlawd,
Wrth feddwl pwys 'r afiechyd hwn;
nîd yma im' ddifgwyl, lawr fy mhwn.

7. Crift yw fy hyder, ond 'rwy 'n wan
yr Jefu ' all fy nghodi i'r lan;
Fy ofnau i, fydd lawer prŷd,
yr ofna 'i fwy ar ddiwedd bŷd.

8, Nawr, 'rwyfi 'n chwennych credu 'n jawn,
dymuno 'r wyf gael ficrwydd llawn,
Er hyn yn wan 'rwyf fi yn byw;
' rwy 'n difgwyl cryfach grâs gan Dduw.

HYMN LXXI. Mefur hîr.

Y dyn trallodedig yn ewynfan, o eifiau profiad mwy o gymmwyfiad o'r addewidion atto ei hun.

TRallodus yw fy enaid gwan,
'r wy' fel un na all fyn'd o'r man,
Wrth drin y ddeddf, a 'fengyl Crift,
mae f' enaid î, o hyd, yn drift!

2. Gan faint fy anghrediniaeth câs,
wrth wel'd mor fach yw ffrwythau grâs,
Y mae fy enaid i mewn braw;
ni's gallaf well tr'o'r 'ddewid draw,

3. Fy enaid fy 'n hiraethu am lês,
a chael 'r addewid iddo 'nês;

Ni

Ni fyn fy enaid lawenhau,
tra fo'r addewid iddo 'n gau.

4. I rai mae'n dryfor nawr ar lêd,
mae f' enaid i mor wan ni chrêd;
O Arglwydd, hyn wy 'n geifio nawr,
tryforau nêf, tro i mi lawr.

5. Hir jawn y trigodd f' enaid gwan,
yn yr anialwch; ddyrus fan?
Trwy fod mewn dychryn lawer prŷd,
heb gyffur cadarn 'r wyf o hŷd.

6. Och nawr! na ddywedai Duw o'i râs,
maddeuwyd dy bechodau câs:
A thi yw etifedd nefol ddawn
fy nawr, gan Grift, mewn meddiant llawn,

HYMN LXXII.

Cwynfan, dan anhwyl parhaus

MYFI fydd un or bobol,
'ddanfonodd Duw i'r bŷd,
I brofi breuol fywyd?
Heb jechyd rwyf o hŷd;
Rwy 'n teimlo, 'n amla' beunydd,
Ryw arwydd yn fy nghnawd.
Fod' rhaid im' ddattod etto,
A bryfio at ddydd brawd,

2. Mae'r poen o'm mewn i 'n pwyfo,
I'm gwfio bant o'r bŷd,
Nid wy 'n cael llonydd 'n unlle,
Ond weithe ambell brŷd;
Mae ing, fel cennad angau!
Yn rhywle 'nglŷn o mewn;
Waith hyn, mae triftwch ryw dro,
I'm llwytho i yma 'n llawn.

3. Mae

3. Mae 'm calon i mewn cylni,
A'r afu yr un fodd;
Heb ſcil mae 'r ſcyfain heſyd,
A'i gofid mawr ar go'dd,
'R arennau gyd a 'r rheini,
Sy a'u cylni, mawr ei cwyn,
O clywch gyfeillion hyfryd,
Mawr ofid wyfi 'n ddwyn!

4. 'Does im' fawr gyſſur yma,
O'm bywyd ar un pryd;
Can's rwyf fel ar fy rofyn,
'Mhen tippyn fyn'd o'r byd;
Ni 'llynga i angau 'n ango,
Mae yn gweithio yn fy nghnawd,
Nes 'dwyf, o ran fy jechyd,
Bob pryd yn ddigon tlawd,

5. Ond hyn yw'r cyſſur penna,
Sydd yma i ddynion gwael,
Fod bywyd anllygredig,
Jach diddig gwych i w gael,
Ond myn'd tu draw Jorddonen,
Lle cywrain am bob cân,
Lle 'mae y llüoedd nefol,
A bywiol, fry o'r bla'n.

6. Trwy ras rwyf innau a'm bwriad,
I lynu wrth geidwad dyn,
Am gael amynedd medda,
Nes delo Duw ei hun,
Im dwyn o'm blin gyfyngder,
Heb bleſſer fy no i 'n bod,
Gan roi im gyflawn rydd-did,
Om gofid er ei glôd

HYMN

HYMN LXIII.

Dymyniad am ras, bendith, a phresennoldeb Duw.

O Arglwydd Dduw y lluoedd,
A llywydd net a llawr,
Er mwyn dy fab anwyla,
Maddeua meiau mawr
A rho dy râs i'm nerthu,
I nesu attat ti;
Cai dithau glod yn gywyr,
A chysur mi gaf fi.

2. Rho galon i mi i gredu,
Yn Jesu Grist dy fan t
A gwna fi 'n un o union,
Wych firol Seion blant;
Heb fethu o fywiol ffirwythau,
Y goreu gywrain ffŷdd,
Fel yr hên seintiau sanctaidd,
A 'nillai gynt y dŷdd.

3. Rho edifeirwch bywiol,
A duwiol 'alar prudd;
Am i mi bechu 'n d'erbyn'
Tiwy w thyn fai heb fudd;
Gad i mi gael maddeuant,
O'm holl fawr nwyfiant trist,
A heddwch glan gydwybod,
Er mwyn poen hynod Crist.

4. Rho i mi galon gywyr,
I'th garu Arglwydd Dduw,
A gwres, trwy ras, i'th ressu,
Heb beidio tra fwy byw,
Na chaffed dim a'm cwrddo,
Hên satan bŷd na chnawd,

I'm

I'm llithio ffwrdd na'm llygru,
Rhag caru Crift fy mrawd.

5. Rho obaith im', i ddifgwyl,
Am dy addewid di,
'R hon fydd yn d'weyd yn bryffur,
' Ceir cyffur oddi frŷ ;
Ac y caiff garw groefau,
A'r ofnau, fy 'n dy blant ;
Eu cym'ryd ymmaith, rywbryd,
Yn llwyr i gyd i bant.

6. Rho im' galon oftyngedig
A diddig ar bob pryd,
I edrych ar d' orchymynion,
Yn gyffon oll i gŷd ;
A'u cadw hwy o'r galon,
Yn union fel dŷn câll ;
A gochel bod fel ffalfwyr,
A welir nawr ar wall.

7. Rho fendith im' ar foddion,
Yn gyffon er dy glôd ;
A'th ordeinhadau 'n beraidd,
Ac iraidd i mi 'n bôd ;
A phob rhyw fwydydd blafus,
Yn felus gan fy Nuw ;
I'm llanw i, a'm llonni,
Tra fw'i yn y byd yn byw.

8. O dwg fi i'th ftafelloedd,
A'th gelloedd gwrefog gwŷch,
A'r llê' mae llawnder ddigon,
Na fydded Seion fŷch ;
A rho im' yn fynychach,
Dy wîr gyfeillach di ;
Ac yna fe ddiwellir,
A chyffur f' enaid i.

9. Rho im' amynedd hefyd,
Os adfyd gaf fi gwrdd,
I ddod yn wîr ddioddefgar,
Fodlongar at dy fwrdd;
Na fydded dim anwiredd,
Na llygredd yn y bŷd;
I'm cadw i rhag glynu,
Wrth f' anwyl Jefu o hŷd.

10. Bydd im' yngaftell cauad.
Ti geidwad enaid dŷn
Rhag y drwg elyn creulon,
A'i weifion bob yr un:
A phob rhyw aflwydd aflês,
A dyfais dynion drwg;
A bydd di a'th wynebpryd,
Yn hyfryd, heb ddim gŵg.

11. O Arglwydd Dduw trag'wyddol,
Mor nefol yw dy nawdd;
Trwy râs, a llewyrch d' wyneb,
Fy nghalon galed dawdd,
O dwg fi fynu 'n uchel,
Trwy ddirgel felus râs;
Yn nes i'th drigfan nefol,
I brofi buddiol flâs.

12, O Arglwydd frenhin clodfawr,
O gariad nawr 'r wy 'n glâf,
Pa pryd y daw 'r diwrnod,
A'r hyfryd hynod hâf;
I f' enaid tlawd hiraethus,
Yn hwylus yna fod;
Lle mae llu mawr nefolaidd,
Yn puraidd ganu clôd!

HYMN

HYMN LXXIV. Meſur cyffredin.

Daw diwedd ar ofidiau 'r gwir griſtion.

MAE llawer peth o fewn i'r bŷd,
o bethau enbyd, creulon ;
Yn blino plentyn Duw ſydd wan,
yn ammal dan amheuon.

2. Ond derfydd am y dyrfa hyn,
'nol cwrdd a'r gelyn angau ;
Er amled profiad prudd y gwan,
fe ddaw i'r lan yn ddiau.

3. Er cymmaint llygredigaeth ſydd,
yn tywyllu ffŷdd y criſtion ;
Fe dderfydd hwn, a hynny 'n llwyr ;
mae gennym gwyr dyſtiôn.

4. Er amled ſo piccellau 'r fâll,
daw pâll ar faethu 'r rheiny !
Er colli wyneb Jeſu gwyn,
fe dderfydd hyn er hynny.

5. Gogoniant fyth ſo i'r Arglwyd nêf,
am lawn a chrêf addewid ;
Mae llê i obeithio hyn, yn ddwys,
'cair gorphwys heb ddim gofid,

HYMN LXXV. Meſur cyffredin.

Criſt yn frenhin Seion.

GWêl, Seion fryn, mae i ti fraint,
er gwaetha'r haint ddeſtrywiol,
Mae gennit frenhin hawddgar gwiw,
mae hwn o'r rhyw frenhinol.

2. Ce'ſt frenhin nefol, mawr ei frî ;
pwy ond tydi a'i cawſai ?

Cael Jelu 'n frenhin mwyn di frâd ;
pwy ond y Tâd a'i rhodd'sai ?

3. Clyw, Brenhin hynod, hefyd yw,
yr Jesu, Duw diddanus !
Mae yn ddŷn hefyd yr un wedd :
cyn myn'd i'r bêdd bu 'n boenus,

4. Mae 'n Frenhin pob rhyw frenhin mawr,
mewn nef a llawr mae 'n llywydd,
Gan hynny cym'rwch gyssur blant,
cewch lwyddiant a llawenydd,

5. Gwyn fyd ei ddeilied ef i gŷd,
sydd yn y bŷd yn ffyddlon ;
Ynghyd hwy gant, ar syr, i sod,
yn canu 'i glod, yn gysson.

HYMN LXXVI. Mesur cyffredin.

Gwagedd y byd hwn.

GWagedd gwâg, medd gwir air Duw,
gwir wagedd ydyw 'r cwbwl,
A'r sydd îslaŵ yr haul yn bod ;
nid y'nt ond nychdod meddwl.

2. Mae holl gyfiawnder y byd crwn,
pe cesglid hwn yn gryno,
Yn llwyr ry fâch i roi jawn fudd,
i'r enaid prudd a'i caffo.

3. Am hyn na charwn fŷd, [na chnawd]
gwêll bod yn dlawd na'i garu :
Ond ymofynwn sylwedd fiŵr,
sydd gan un gŵr sef Jesu.

4. 'Nol in' ei gael rhown fawl ar g'o'dd,
i Dduw am rodd mor hyfryd ;

Gan

Gan gofio 'r mawr wahân o hyd,
rhwng Crift a'r byd i'r bywyd.

HYMN LXXVII. Meſur cyffredin.

Y Criſtion mewn amryw brofedigaethau, yn y byd; ond etto, mewn gobaith o waredigaeth o honynt oll.

MAE amledd profiad yn y bŷd,
trwy greulon lîd y gelyn,
A llawer câd rhyfelwyr ſydd,
i'r criſtion prudd 'fyn'd iddyn'.

2. Pan lithro dŷn, daw maes o law,
ryw greulon fraw i'w ganlyn;
Cydwybod fŷdd, trwy gyfraith Duw,
yn dwyn y cyfryw ddychryn,

3. Dyledſwydd meibion Seion ſyw,
yw cadw Duw 'n eu golwg,
Gan gredu 'Nghriſt, a'u rhodiad de',
yn ol ei eiriau 'n amlwg.

4. A chofient hyn ymhob bwlch tyn,
fod pen y bryn yn agos,
Lle 'byddant hwy uwch briw a braw,
mae 'r gair ger llaw yn dangos.

5. Ac hefyd cant gyfeillach Oen,
'fu 'n dioddef poen a gofid;
A chyd ag ef, dros fyth i fod;
heb ddim dychryndod hefyd.

6. Cant fod mewn cariad cyflawn clŷd.
uwch law y bŷd ſy 'n paſſio!
Cant ganu mawl, mewn cyflawn lwydd,
a phalmwydd yn eu dwylo.

HYMN LXXVIII. Meſur hîr.

Dymuniad am gymmorth Duw.

YSturia, 'n Duw ein tlodi ni,
can's attad codwn nawr ein cri,
Ac nag anghofia 'n cyflwr gwael,
can's gyda thi mae nerth i'w gael.

2. Ein tlodi ſydd ymhob rhyw beth;
rho gyflawn râs rhag mynd ar feth;
Rho gymmorth hefyd yn ein gwaith,
a nerth rhag tripio ar ein taith,

3. Rho hefyd ras i godi 'r groes,
a'i dwyn hi 'mlaen, dros hyd ein hoes,
Rho nerth i fyn'd ymlaen trwy ffŷdd,
i ti gael clod a ni gael budd.

4. A dwg o'r diwedd, ni i'r lan,
mae'n golwg ni, ys tro i'r man,
A gad ni gael ein rhan o'r wlêdd,
'bwrcaſodd Jeſu, awdur hêdd.

5. A gaiff fy enaid i, O Dduw,
fod gyd a 'r ſaint, bryd hynny'n byw?
Ac edryeh oddi fry i'r llawr,
gan gofio 'ngwaredigaeth fawr,

HYMN LXXIX. Meſur hîr.

Annogaeth i lynu wrth Grift.

DEwch nawr i ddechreu cywrain gân,
chwi 'r duwiol rai, ſy' myn'd ymlân
Tu a Seion firiol, mawr yw ſerch
yr Jeſu mwyn a'r briod-ferch.

2. Gan hyny dewn, a'n cerdd ar gan,
i foli 'n glau, yr Jeſu glân;

Can's

Can's yntho ef mae'r Tryſor mawr,
i gyfoethogi 'r rhai ſy lawr.

3. Mae gantho ef gyfiawnder maith,
can's cym'rodd, a chwplaodd y gwaith;
Gan hynny credwn ynddo ef,
a rhoi iddo glod a llafar lêf.

4. Ac awn ymlaen, yn ufudd jawn,
trwy rym ei râs, ei nefol ddawn!
Gan gofio 'n ddwys, ei boen a'i chwŷs;
canlynwn ar ei ol ar frŷs.

5. Ac hefyd, wrth in' fyn'd ymlân,
edrychwn ar ei rodiad glân;
A rhodiwn fel y rhodiodd ef,
nês myned atto, frŷ i'r nêf!

HYMN LXXX. Meſur cyffredin,

Ar ol ſwpper yr Arglwydd.

CRIST ydyw 'r Oen, ein haberth mawr
yr hwn ddaeth lawr, o'i wirfodd;
I ddwyn yn llâwn ein beiau 'n llwyr,
ym min yn hwyr dioddefodd,

2. Fe roes yn rhydd ei hun yn rhâd,
tywalltwyd gwa'd ei galon!
I brynu dynion bant o'r bŷd;
fel câent i gyd y goron.

3. Er cofio hyn rhoes fara a gwîn,
i'r duwiol' drîn yn llawen;
A ninnau gawſom, heddyw 'r fraint,
ymmyſg y ſaint, drachefen.

4. Am gariad mawr, a gwledd mor rhâd,
rhown glôd i'r Tâd tragwyddol;

Ac awn ymlaen, mewn peraidd gân,
nes myn'd i'r drigfan nefol.

HYMN LXXXI. Meſur byrr.

Y Criſtion yn canu wrth olygu diwedd ei daith.

FY ffryns criſtnogol mwynedd,
mae'n taith ni mron ei diwedd;
'Does gennym fawr o ddyddiau i fyw,
nes myn'd at Dduw 'r trugaredd.

2. Can's 'r ydym ni 'nes heddy',
na 'r Dydd y bu i ni gredu;
Mhen tippyn bâch daw mîn yr hwyr,
a'n taith i lwyr ddiweddu.

3. O nawr am Galon gywyr,
i fod yn ffyddlawn Filwyr;
Gan weithio gwaith ein Duw a'i glôd,
na charwn fod yn ſegur.

Fel er ein bod droes chydig,
ar waſgar yn waſgedig;
Y gallom ddiſgwyl, yn ddïo'd,
gyfarfod bendigedig.

5. Lle bydd y ſaint, yn hyfryd,
yn gyflawn, yn eu gwynfyd;
Uwchlaw pob lleſgedd, fry; yn llawn,
O nefol ddawn yr Yſpryd.

HYMN LXXXII. Meſur hîr.

Y Duwiol yn yr adgyfodiad, fel angylion Duw,

MAE dŷdd yn dyfod ar y Saint,
y byddant byth yn fawr eu braint:
Can's hwy gant, yn y nefodd, fyw,
'n gyffelyb i angylion Duw.

2. Yr ym ni nawr yn byw o hyd,
heb ddeall fawr am nefol fŷd;
Ond byddwn, cyn bo hîr, yn byw,
fel nawr y mae angylion Duw.

3. Gwan bererinion ŷm ni nawr,
fydd a'r y ffordd i'r nefodd fawr
Ond etto heb fyn'd yno i fyw,
fel nawr, y mae angylion Duw.

4. Mae rhwyſtrau trymion ar ein taith,
a'n ſiwrnau fydd trwy ddryſwch maith
Ond daw y dydd, ini gael byw,
heb flinder mwy nag angel Duw.

5. Mae llygredd nawr, yn llugru o hyd
bob gwaith a wnelom ni 'n byd,
O doed y dydd i ni gael byw,
heb lygredd fel angylion Duw.

HYMN LXXXIII. Meſur cyffredin.

Y credadyn yn rhydd Etifedd; y lleill yn gaethion, yn cael eu bwrw allan.

MA gair Duw 'n d'weyd, fod dynion caeth,
a'r rhain o fâth rhy aflan;
Na chant o fraint y feintiau gwiw;
y rhain myn Duw hwy allan.

2. Ond pawb, yn awr, a gretto 'nghriſt,
na fyddant hwy driſt ddynion;
Can's maent yn rhydd i'r nefol fraint,
clwn, maent yn etifeddion.

3. Gwir Etifeddion pethau mawr,
yw pawb ſy nawr yn credu;
Gan agor iddynt dryſſor grâs,
ni chant fod ma's ond hynny.

4. Gwaith

4. Gwaith pêr, yr etifeddion pur,
yw cofio cur yr Jeſu;
Ond gwaith yr rhain, mewn purdeb llawn,
ar fyr, fydd iawn foliannu.

HYMN LXXXIV. Meſur hîr.

Bendithio Duw, ſydd yn rhoddi, ac yn cymmeryd ymaith.

BEndigaid fyth fo Enw Duw,
'r hwn fu dda im' er pan wyf fyw;
Mawr Arglwydd yw, hoelionus fu;
o dewch bendithiwch gyda mi,

2. A phan mae'n galw 'i roddion 'nol,
na fid im' rwgnach, fel mae'r ffol,
Ond f' enaid i' bendithia 'th Dduw,
can's cyflawn Arglwydd arnaf yw.

3. Bendithiwn Dduw, nawr oll i gyd,
am y fawr fendith, beru o hyd;
Sef am ein Haglwydd Jeſu Grift,
trwy Hwn llawenir calon drift.

HYMN LXXXV. Meſur cyffredin

Yr edifoiriol yn troi at Dduw oddiwrth bechod.

GWIR edifeirwch buddiol yw,
na charwn fyw mewn pechod,
Rhown heibio bechod, trown at Dduw,
trwy Grift cawn fyw mewn cymmod.

2. Y duwiol fydd a chalon brudd;
waith bod yn rhydd i bechu
Y dyddiau gynt, mor rhwydd a'r gwynt
mor wael ei hynt oedd hynny.

3. Ond

3. Ond nawr mae 'n driſt mewn lludw & llwch,
trwy edifeirwch duwiol;
Mae'n troi at Dduw mewn galar triſt,
mae 'n caru Criſt yn raſol.

4. Mae 'n wiliadwrus, ar bob cam,
gan gofio am ei lygredd;
Mae 'n cofio natur Duw, ſydd lân,
yn groes i rân anwiredd,.

5. Nawr molwn Dduw, a melus fawl,
am bob gras rheidiawl hyfryd;
Trwy râs daw 'r balch i lawr i'r llwch
mewn edifeirwch, hefyd.

HYMN LXXXVI. Meſur hîr.

Er gorwedd o honoch ymmyſg y crochanau byddwch fel eſgill c'lommen, &c.

YN awr, mae 'r duwiol yn eu dŷdd,
yn dioddef poen ag wyneb prudd,
Ond daw y dydd, 'ceir hyn o fraint,
fod wyneb ſiriol gan bob ſaint!

2. Er bod y rhain yn gorwedd lawr
mewn rhwd crochanau, fâch a mawr,
Hwy fyddant oll fel c'lommen, clywn,
a'u heſgill hardd yn hedeg mewn.

3. I feddu 'r fraint pwy wyr mor fawr,
uwchlaw 'r holl leſgedd gynt ar lawr,
Mewn gwiſgoedd hyfryd, gwell nac aur;
i dd'weyd mor wych, pwy all gael gair!

4. Pryd hyn, ſe dderfydd pechod pwn,
a phob rhyw adfyd derfydd gwn;
Ac ſe gair bod mewn byd yn byw,
na's cyddiau ddim o wyneb Duw.

5. Mor

5. Mor ſelus, y pryd hwnw, ſydd,
bod uchlaw 'r llygredd, yma ſydd;
Yn canu clod in Harglwydd Dduw,
Am ein dwyn ſynu ſyth i fyw.

HYMN XXXVII. Meſur hîr.

Y Pererin gwan mewn enbydrwydd am ei fywyd, eblegid ei elyn, &c.

MYfi ſydd ddyn a ddaeth i'r bŷd,
yn llawn aflendid oll gŷd;
Ac at y llygredd lledrith hwn,
chwanegais bethau maith yn bwn.

2. Mewn geirau, lawer, gwyrais i,
yn erbyn Duw, ſydd Un a Thri;
Ac mewn gwethredoedd gwaethaf gwaith,
ac mewn meddyliau, miloedd maith!

3. Anfonwyd im, arg'oeddiad lawr,
am feïau filoedd, oedd mor fawr;
A hyn a wnaed, gan Dduw, o'i ddawn;
nes oeddwn i 'n ddychrynllyd jawn,

4. Y pryd ' dechreuodd hyn o fraw,
ni fedra'i 'n llwyr, ei gael yn llaw,
Ond tybied 'r wyf, bod hynny 'n bod,
pan nad o'wn i ond ſaith mlwydd oed.

5. Ond wedi hyn, bu mogiad maith,
ar argyhoeddiad, cryf a llaith;
Can's llygredd oedd yn llawn ei chwant,
am yrru pob arg'oeddiad bant,

6. Pryd hyn, ni's gallwn i ddim byw,
heb fyn'd mewn gweddi ger bron Duw;
Ac er mor wael, o ran y môdd,
'roedd, rhaid ei larfer, ſel yr cedd.

7. Bum

7. Bum, wedi hyn, ymron, yn llwyr,
heb fawr o fraw, Duw 'r nef a'i gŵyr,
Yn dilyn chwant, trwy bleſer blŷs:
ond wedi'n, doi rhyw fraw ar frŷs;

8. Yna gwrth'nebwn bechod bôdd,
arferwn weddi fel yr oedd;
Ond pan gadewid fi i'm fy hun,
doi pechod allan yn ei wŷn.

9. Ond etto ni chawn i ddim byw,
o hyd, yn ddrwg, gan ddychryn Duw;
A gadel gweddi, mi ni chawn,
er gwanned oedd, a byred dawn.

10. Pan byddwn i wrthif fy hun,
cynhyrfai pechod, yn ei wŷn;
Ond dywedwyd im' mewn eglur iaith,
fod Duw yn gwel'd mewn t'w'llwch maith.

11. Bum amryw o flynyddau, 'n wîr,
heb argoel da, ond cyflwr dîr!
Dymun'ſwn nawr i gael y grâs,
a yr'ſai bechod brwnt y maes.

12. 'Nol hyn yſtyriais eiriau Duw,
er llâdd fy llygredd, oedd yn fyw;
A chwiliais yn y geiriau hyn,
am ryw ryddhâd, a hynny 'n ll'yn.

13. Mi geiſiais wel'd dyledſwydd dŷn,
a phechod yn ei liw ei hun;
Fel y bawn i o hynny maes,
yn gweled pechod brwnt yn gâs.

14. Ond etto, ni chawn bechod, bŷth,
yn llwyr yn noeth y maes o'i nŷth;
Gan hynny gwaeddwn, ar ryw brŷd,
mai fi yw 'r gwaetha' ſy 'n y bŷd,

15. Ond am wybodaeth mi ymrown,
er gwybod meddwl Duw yn llawn,
A cheisio 'r fendith oedd gan Dduw,
er lladd fy llygredd, oedd yn fyw.

16. Pan deallais fwy o 'w'llys Duw,
pa fodd y dylai dynion fyw;
Daeth trachwant yntau, trwm yw 'r gân,
i wneuthur peth na wnai o'r blaen.

17. Can's, pan dyledswydd welwn i,
a Duw 'n fy rhwymo iddi hi,
Fe fyddai llygredd llawn, o'i fron,
yn gwthio 'n grŷf yn erbyn hon.

18. Felly pa fwyaf oeddwn i,
a'm dyled i'r Duw, Un a Thri;
Ae fy mhechodau 'n amlach rhîf,
a'm llygredd oedd yn llanw 'n llîf!

19. Yna meddyliais, mai gwell yw,
bod heb wybodaeth, yma 'n byw;
Gan fod achlysur chwant yn bod,
trwy eiriau Duw, i dripio nhroed!

20. Ond d'wedwyd wrthyf, yn fy mhlâ
bod heb wybodaeth nid yw dda;
Can's i'w difetha mae erioed,
bawb heb wybodaeth, sy 'ma 'n bod.

21. Yna yn ddwys mi drois at Dduw,
am gadw f' enaid bâch yn fyw!
Gan fy mod i dan y fath bwn,
yn llethu 'n llwyr gan faint oedd hwn,

22. Ac wedi hyn daeth 'fengyl Duw,
i ddangos im' yr Jesu 'n fyw,
A d'weyd mai trwy ddioddefaint hwn,
mae myn'd yn rhŷdd o'r pechod pwn.

23. Deallais nawr, am geidwad dŷn,
mai Jeſu Griſt yw hwn ei hun;
Mai 'r unig ffordd, i fyn'd i'r nêf,
yw credu 'n hwn a'r hyn wnaeth ef.

24. Ac hefyd mai trwy waed yr Oen,
mae myn'd yn rhydd o bob rhyw boen
A bod yn ſiŵr, o fyn'd i'r nêf,
bob un a gretto ynddo êf.

25. Ac yn 'r efengyl, gwelais lûn,
cyſiawnder a ſancteiddrwydd dŷn;
Y rhai trwy Griſt ei hun, a geir:
gwîr dda a gwerthfawr ydyw 'r gair.

26. Yna mi godais lefain prudd,
am nerth i ffoi at Griſt, trwy ffŷdd;
Ac am fod hon, i mi, fel traed,
i fryſio at Griſt a'i werthfawr waed.

27. Ac yna barnais i mi gael,
rhyw dawel dymmor, yn ddiffael;
Gan fod gwîr werthfawr waed, mâb Duw,
yn cadw 'r dynion gwaetha 'n fyw.

28. Dëallais, hefyd, yr un prŷd,
bod rhaid ſanctеiddrwydd yn y bŷd,
A phawb, trwy Griſt fy 'n myn'd i'r nêf,
rhaid llâdd eu llygredd, trwyddo ef;

29. A rhaid cael genedigaeth lân,
trwy rinwedd grâs yr Yſpryd glân,
A gwneuthur dŷn, o newydd lûn,
y gorchwyl hwn gwnâ Duw ei hûn.

30. Ond nawr eſmwythder ni chawn i,
gan chwantau chwîth, a'i lledrith lî',
'Rhai oedd yn llithio ar bob llaw,
nes oeddwn i mewn briw a braw.

31. Mi lefais eilwaith, lawer gwaith,
am laddfa mwy, i'r gelyn maith :
A dywedodd Duw, mewn geiriau brâs,
mai digon rym fydd yn ei râs.

32. Ond fi, ni fedrwn, oedd yn fi'n,
gymhwyfo'r gair attaf, fy hun;
Gan hynny ceifiais i, gan Dduw,
gymhwyfo'r gair a byddwn byw.

33. Ond d'wedodd Crift, de'wch attafi,
ac yna bywyd a gewch chwi ;
A'm gwîr gyfeillion yw pob rhai
fy 'n cadw 'ngair, heb ammeu llai.

34. Yna dëallais fod yn rhaid
arferyd moddion, yn ddibaid ;
Er caru Crift, a'i hoffi 'n wêll ;
a chadw cariad chwantau 'mhêll.

35, Yn awr mi 'mroddais mewn rhyw flŷs,
at ordeinhadau Crift ar frŷs ;
Gan ddifgwyl trwyddynt gael rhyw rym,
yn erbyn llygredd oedd mor llym.

36. Dymunais nawr ei farwol loes,
a Chrift i'w hongian wrth ei groes,
A'm brŷd [gŵyr Dduw fydd yn y nêf.]
mai, rhagllaw, na's gwafnaethwn êf.

37. Ond mi a welais, wedi hyn,
na laddwyd pechod etto 'n lly'n.
A bod rhaid dilyn Crift o hŷd,
at lâdd y llygredd oll i gŷd.

38, 'Nol hyn, mi geifieis fyn'd ymlaen,
'nol gwîr gyf'rwyddyd Jefu glân;
Ac etto pechod, fel rhyw gawr,
a'm baeddai i, a'm bwriai lawr !

39. Yftyr-

39. Yſtyriais yna, yn ſy hynt,
pa ſodd y bu 'r gwŷr goreu gynt ;
A gwelais i ſod pechod câs,
yn dilyn y rhai mwya 'u grâs.

40. Hên *Baul* a gwynai, 'n drwm ei fron,
am flîn gorph y farwolaeth hon !
Ond etto dïolch 'r oedd trwy Griſt,
ſod gobaith myn'd o'i gyflwr triſt !

41. Ac wrth gydmaru 'r naill a'r llall,
o'r ſeintiau goreu, füant gâll,
Amherffaith ' gwelais i bob un ;
ond Jeſu Griſt gwir geidwad dŷn,

42. Ac etto eu cadw cawſant ôll,
gan bechod nid aeth un ar gôll !
Trwy râs ein Harglwydd Jeſu Griſt,
gwaredwyd hwy o'u cyflwr triſt !

43. 'Nol hyn, mi geiſiais roddi mhwys,
ar Jeſu Griſt, trwy gredu 'n ddwys ;
Am wîr gyfiawnder diſglair jawn,
a lladd fy llygredd oedd mor llawn.

44. hyd yma, 'm ffydd i ſydd yn wan,
ac etto ni fyn golli 'r rhan !
Mae fel un am afaelu 'Nghriſt,
ac etto 'n ofni angau triſt !

45. Fy ffŷdd ; os angau ſy o'th flaen,
gwna frys i ffoi at Jeſu glân ;
Pan gaffecht Jeſu 'n geidwad im',
fe gollodd angau glew ei rym !

46. Yn awr, fy mwriad yw' o hŷd,
i gredu 'nghriſt, tra fwy 'n y bŷd ;
Gan ddiſgwyl trwy 'i gyfiawnder ef,
er cynddrwg wyf, gael mynd i'r nêf.

47. I wneuthur hyn, yn wir 'r'w'i 'n wan,
prin 'codau 'm meddwl 'nawr i'r lan !
O Dduw chwanega, nawr, fy ffŷdd,
a gwna fi 'n gryfach, yn fy nŷdd.

48. 'Rwŷ 'n chwennych hyn trwy 'm Jeſu cu,
gwanychiad mwy i 'mechod i',
A gweld ei lawn ddiweddaf loes,
trwy hoelio hwnnw wrth y groes.

49. 'Rwy 'n chwennych bod, tra byddwyf byw,
ymhob dyledſwydd, gydâ Duw ;
Ac byth na chaffer fi mor ffol,
a gadel un ddyledſwydd 'nol.

50. A Duw a'm nertho i ddala ma's,
mewn gwir arferiad moddion grâs :
Ac os concwerwr fyddaf i,
mawr fydd anrhydedd ceidwad cu !

51. Wrth edrych ar fy mechod du,
'rwy'n meddwl nad oes gwaeth na mi,
'Rwy'n meddwl, 'nol fy mreintiau mawr,
mai fi yw'r anffrwythlona' lawr.

52. Pan b'wyf ymhlith y duwiol rai,
Sy wanna 'u ffydd, a mwya'u bai,
'Rwy'n meddwl mai fi, yn fy nŷdd,
yw'r mwya'i fai a lleia'i ffydd ?

53 Pan bwyf ymmyſg trallodus rai,
ſy'n ddychrynedig, yn ddilai,
'Rwy 'n meddwl na chair, o blant Duw,
un mwy dychrynllyd, na fi'n fyw !

54. Mi wn fod dynion duwiol câll,
yn dioddef tanllyd faethau'r fâll !
Tybygwn nad oes yn y llu,
ga's fwy o ſaethau 'r fâll na fi !

55. Er hyn i gyd, trwy gariad Duw,
tybygwn 'mod i heddy'n fyw!
Os wyf yn llwyr y lleiâ o'r faint,
'rwy'n fodlon iawn i'r nefol fraint!

HYMN LXXXVIII. Meſur cyffredin.

Rhwyſtrau ar ffordd y Criſtion, ette Criſt yn ei dynnu 'mlaen.

MAe Rhwyſtrau mawr yn rheſtrau 'n bod,
ar ffordd pob hynod griſtion;
Mae'r byd (fel *bait*) i'w gadw 'nol,
a'i chwantaû cnawdol creulon.

2. Ac hefyd ſatan ſydd yn wîr,
yn gwneud mwy cur i'r duwiol;
A chamſyniadau ſydd yn bod,
yn groes erio'd i'r grafol.

3. Ond Criſt, fe'i tyn, ymlaen fe'i myn,
a gwneud pob gelyn allo!
Fe'i dŵg ef ma's. trwy rym ei râs,
er cymmaint câs ſydd iddo.

4. Mae hiraeth pawb, o blant y Tâd,
am rym y tyniad nefol;
I dd'od ymlaen trwy 'r dw'r a'r tân,
fel ſeintiau glân a gŵrol.

5. Y Tâd gaiff glôd, am Griſt fy'n bod,
fel hyn, yn hynod nerthwr;
Ac hefyd Criſt, trwy 'r Yſpryd glân,
gaiff gennym gân gwaredwr.

HYMN

HYMN LXXXIX. Meſur hîr.

Y Duwiol yn cwyno rhag ei elynion; etto mewn hyder am ymwared.

O Arglwydd Dduw fy n'gheidwad i,
gwnâ ſi yn ffyddlawn yn dy dŷ;
A rhô im, hefyd, rym dy râs,
i deithio 'nhaith, a dala 'ma's.

2. Mae i mi nawr elynion, lû,
trwy gynhyrfiadau 'r gelyn dû;
Ond nid yw 'r rhain ddim mwy ei câs,
nag' bum, i ti, cyn im' gael grâs.

Mae'n eglur hyn, ymhob rhyw oes
fod 'rhaid i'r Criſtion godi'r groes;
Am hyn mi dygaf hi bob dŷdd,
nes delo Criſt im' rhoddi 'n rhŷdd.

4. Er bod gelynion i'm, heb rîf,
mae grâs gan Dduw im, gwnend i'n gryf,
Mae Dynion, rai am gael im, glwy,
gweddiaf innau droſtynt hwy.

5. Nawr, llawer fydd am dryppio 'nhra'd,
ond câf fy nghynnal gan fy nhâd,
A phwy all ddweyd, na welir ſi,
uwchlaw fy holl elynol lu!

HYMN XC. Meſur cyffredin.

Dedwyddwch, o ddiſgwyl wrth Dduw.

G Wyn fyd y rhai ddiſgwylio'n jawn,
wrth Dduw, a'i ddawn cyſtannol;
Rhwn mae'n gyfrannu trwy ei râs,
mor dda i'r ddinas nefol.

2. Diſglwyliwn innau wrth Dduw hael,
bob dŷdd, am gael cyſreidiau;

Trwy

Trwy bob peth ag a drefnodd Duw,]
ſef pob rhyw ordeinhadau.

3. Diſgwyliwn ni, trwy roddi 'n pwys
ar Dduw yn ddwys, am fendith;
Ac am gael ei gyfeillach fwyn,
i ddweyd ein cwyn, yn ddilith.

4. Diſgwyliwn oll wrth Dduw yn iawn,
am heddwch cyflawn hollol;
Trwy Grift mae 'i gael, gan y Duw hael,
i bob dŷn gwael, crediniol.

5. Na flined neb wrth ddiſgwyl hyn,
ond diſgwyl yn waſtadol,
A ddwys ddiſgwylio, dros ei daith,
caiff wîr gynhyſgaeth nefol.

HYMN XCI. Meſur cyffredin.

Bwriad ŵ godi, a dyfod at Grift, wrth ei alwad ef.

CYfodwn nawr; o cofiwn hyn,
mae Criſt y brenhin hyfryd;
Yn galw arnom; awn ar frŷs,
am wir gyſſurus fywyd.

2. Trown heibio bechod, trwy waed Criſt,
na fyddwn driſt ond hynny;
Trwy 'i air mae'n galw arnom, clywn,
cawn fyn'd y mewn at Jeſu.

3. Dewn bawb ſy gleifion, a than lwyth;
gwnâ Criſt ni'n eſmwyth ddigon;
Dewn innau ſydd, gan ofnau, 'n brûdd,
gwnâ Criſt ni 'n rhŷdd o'n hofon.

4 Ffydd, Jechyd, bywyd, cyſſur crŷf;
a gwîr dangneddyf hefyd,

Y fydd, trwy Grift, i'r Enaid trift;
o dewn cawn dyft, yr Yfpryd.

HYNM XCII. Mefur cyffredin,

Can y cyftyddiol.

EIn gwir waffadol ddyled, yw,
clodfori Duw y llŵoedd;
Am ei rhagluniaeth wir-ddoeth ddâ,
heb beidio yma i bobloedd.

2. Mae'n rhoddi jechyd, hyfryd hêdd,
gorfoledd a llawenwydd;
Gan hynny, os ewyllys Duw,
boddlonwn fyw mewn cyftydd.

3. Clodforwn di, ein Duw o'r nê,
am gymmorth gore i'n bywyd;
Ac am bob llwyddiant llawn, ag fydd,
ac am ein Cyftydd hefyd.

4. Ein gweddi fydd ar Dduw, trwy ffydd,
am fendith, bûdd, i'n bywyd;
Ar bob rhyw gyflwr ag y fydd;
hyd 'noed ein Cyftydd hefyd.

5. Fel y gwnair ni, trwy hyn o fraint,
yn gwyr faint i'r Arglwydd;
Mae'n hymdrech ni, a'n llef neu 'n cri,
ein cael lle ni ddaw cyftydd.

HYMN XCIII. Mefur hîr.

Bywyd i bob un a gretto ynghrift 'r hwn a ddioeddefodd dros Bechaduriaid.

CRift gwir fab Duw, o'r nef y daeth,
i brynu a'r g'oedd y rhai o'ent gaeth;

A phawb a gredant ynddo eſ,
'gant fywyd maith a myn'd i'r nêf.

2 Criſt a ddioddefodd, o wir ferch,
i Dduw, ei Dâd, a'r Briodferch;
Yn awr mae bywyd i bob rhai,
a gredant ynddo fe,'n ddilai.

3. O f'enaid gwêl, mae'n gwawrio 'r dŷdd,
o fenaid deffro; ple mae'th ffŷdd;
Gwêl Griſt, ddioddefodd, clyw ei lêf;
can's cleddy' 'r Tâd a'i clwyfodd eſ!

4. Trwy 'r hyn y'm rhoddwyd i yn rhŷdd,
a fu'n byw'n ffol ond nawr mewn ffŷdd,
A diſgwyl 'r wyf gael bod yn byw,
ymhell oddi wrth ddigofaint Duw.

HYMN XCIV. Meſur hîr.

Criſt gyd a'i bobl, hyd ddiwedd y byd.

WEl, 'nawr, pa'm byddwn ni yn driſt,
ſy 'n cael addewid Jeſu Griſt!
I fwyn fod gyda ni bob Pryd,
o'r bore hwn, hyd ddiwedd bŷd!

2. Bydd gyd â ni ein Brenhin mawr;
fu 'n diodef loeſon, gynt, ar lawr;
Bydd gyd a ni 'n hoffeiriad mwyn,
'roes waed ei galon dros ei ŵyn!

3. Mae'n eiriol fry yngwydd ei Dâd;
mae gydâ ni 'mhob ordeinhâd;
Mae 'i râs, a'i fendith, yn ein plith,
os ydym gywyr, cawn ei gwlith.

4. Mae'i nerth, a'i addewidion eſ,
i ni yn awr, tu yma i'r nef!
Ond caiff pob duwiol ſyma'n driſt,
mewn gwydd, weld gwedd ei Arglwydd Criſt.

5. Mae

5. Mae hyn yn codi calon wan,
bod Jeſu gyda hi 'mhob man!
Ond o mor uchel fŷdd y ſaint,
pan elont frŷ' gael rhan o'i fraint

HYMN XCV. Meſur hîr.

Diziſtir y gelyn diweddaf.

MAe gobaith gwych i ſentiau Duw;
er iddynt farw, hwy gant fyw:
Er bod gelynion yn y bŷd,
daw dydd darfyddant oll, i gyd!

2. Maent hwy 'n gorchfygu, o bryd i brŷd,
bob gelyn drwg ſydd yn y bŷd;
A'r hwya, o'r rhain yn dala ma's,
heb ei ddiniſtrio yw'r angau glâs.

3. Ond ſe ddiniſtrir hwn, ar goedd!
pan dêl yr adgyfodiad floedd!
Ac ni chaiff angau byth o'r fraint,
o oruwchafiaeth ar neb ſaint.

4. Ac yna bydd y ſaint yn byw,
byth, yn y nefoedd, gydâ Duw!
Yn canu caniad mwyn yr Oen,
heb ofid, briw, na braw na phoen.

HYMN XCVI. Meſur hîr.

Pet. 3. 13. Pwy a ddrygai ddilynwyr daioni?

PWy ddŷn a ddrygai 'r ſaint y ſŷdd,
yn cadw gydâ Duw, trwy ffŷdd?
Gan fod ei lygaid ar bob rhai,
a gadwo gyd ag e'n ddilai.

2. Er amled drygau ſy'n y bŷd,
pwy ddryga 'r ſaint er hyn i gŷd!

Can's

Can's Duw a'u ceidw, fel mewn câ,
bob rhai fy 'n dilyn 'rhyn fy ddâ.

3. Wel' codwn nawr, a'n cerddol gân,
gan ddyfal ddilyn yn y bla'n;
Er clôd i Dduw, a'n cadwodd oll,
rhag myn'd, trwy 'r gelyn mawr ar goll.

4. Ond caiff, yn wych ein clôd yn wêll,
'nol myn'd uwchlaw pob drygau 'mhêll;
Llê ni bydd dim, ond da i gŷd,
yn llanw 'r lle, yn llawn o hŷd.

HYMN XCVII. Meſur hir.

Am y Jachawdwriaeth fawr,

MAE Jachawdwriaeth fawr ddifai,
gan Jeſu Griſt, heb drangc heb draí,
I bob crediniol; da yw 'r dawn!
mae' yn gyſſuron oll yn llawn.

2. A'r Jachawdwriaeth hon o râs,
a ro'w'd gan Jeſu Griſt i ma's;
Nid ydyw hon ddim llai o brîs,
na gwerth ei waed, a gwerth ei chwŷs,

3. Mae hon yn Jachawdwriaeth frâf,
i bob rhyw glwyf, i'r enaid clâf;
A phob rhyw ddŷn a gollo hon,
'fe â i uffern, fraw, o'i fron,

4. Rhown glôd i Dduw, o'i ddawn ei hun,
am ddangos cariad mawr i ddŷn;
Ac nac eſg'luſwn ddim yn awr
o'r Jachawdwriaeth hon, ſydd fawr.

5. Ac os yr jechyd hón a gawn,
ein henaid clâf ſydd jachus jawn!
A chawn y fraint, ſry uwch y llen,
o ganu mawl ar g'oedd Amen.

HYMN XCVIII. Meſur hîr.

Diolchgarwch i'r Tad, am gymhwyſiad i gael rhan o etifeddiaeth y ſaint, &c.

O Arglwydd Dduw, ti bïau 'r clôd,
am etiſeddiaeth ſaint, erio'd
A thydi, Arglwydd, am y fraint,
a gaiff y clôd, byth, gan y ſaint.

2. Ac hefyd, eu cymhwyſiad hwy
a wnaed gan Dduw; 'doedd un oedd fwy
A hyn i gyd, yn rhwydd o'i râs;
rhown innau 'n glau ei glôd i ma's.

3. Mae 'r cymmwyſiadau hyn o Dduw,
yn gwneud yr enaid marw 'n fyw,
Ac yn ei wneud, o'i gyflwr gwael,
yn gymmwys i'r 'tifeddiaeth hael.

4. Mae 'r cymmwyſiadau hyn, o râs,
mewn ffrwythau mwyn yn tarddu ma's,
A'r dŷn mewn gobaith o fwynhâd
o'r etifeddiaeth, gydâ e'i Dâd.

5. O Arglwydd gwêl ni, nawr mewn gŵydd,
am ganu 'th glôd o galon rŵydd,
A gawn ni 'n felus, gael y fraint
o ſeinio 'th glôd, byth, gyda 'th ſaint.

HYMN XCIX. Meſur cyffredin.

Onid oedd yn rhaid i Grift ddioddef? &c.

CRIST a ddioddefodd 'r hyn oedd raid,
mewn corph ac enaid hefyd;
Ac wedi hyn, fe aeth y ſan't
Mewn i'w ogoniant hyfryd.

2. Mewn byd o dlodi y bu ef,
pan ddaeth o'r nef i wared;

A

A mawr ddioddefodd Criſt ein brawd,
o boen a gwawd mor galed!

3. Ond wedi darfod diodde' 'r poen,
ſe aeth yr Oen i'r nefoedd;
A chyd ag ef, caiff ſaint, gwir yw,
glodfori Duw y llüoedd;

HYMN C. Meſur hîr.

Codi 'r groes a chanlyn Criſt.

FE dd'wedodd Jeſu Griſt ar g'oedd,
wrth bawb, pan ar y ddaear 'r oedd
Os chwennych neb ei ganlyn ef,
rhaid codi 'r groes cyn myn'd i'r nef.

2. I ti, ein Tâd, y rhown ni 'r clôd,
'r hwn wyt yr un, dros fyth i fod;
Am roi 'r fath Athro, nefol, Nêr,
a'i agwedd bur, a'i ffrwythau 'n ber.

3. Efe yw'n Hathro ni a'n paſg,
trwy i ddawn y dyſgwn ein holl dafg,
Er i ni orfod dwyn y groes,
yn rhwydd gwnawn hyn dros hyd ein hoes.

4. Gan ddiſgwyl dawn oddi wrth ein Duw,
i dduwiol ddyſgu tra f'om byw;
A nerth i ganlyn Criſt ein brawd,
fu'n dïoddef, gynt, fawr boen a gwawd.

HYMN CI. Meſur hîr.

Yr eglwys yn eiddo Criſt, a Chriſt yn eiddo 'r eglwys.

F' Anwylyd hardd ſy 'n eiddo fi,
er gwaetha 'r holl élynol lu;
A finnau ſydd yn eiddo ef:
rhôf iddo glôd trwy lafar lêf.

2. Fy eiddo fi oedd Criſt fy mrawd,
yn ei holl ofid a'i holl wawd ;
A ſinnau oedd yn eiddo êf,
yn ei wîr oruwchafiaeth grêf.

3. Pa rôdd yn fwy, a ro'id i ddŷn,
na Chriſt, yr hwn ſydd gyflawn un?
A pheth yn fwy 'ddiſgwyliaf fi,
na 'm ffyddlawn ffrynd, fy Jeſu cu.

4. Rwy 'n dewis bod ar dawel dôn,
yn canu cerdd y cywir Oen ;
O herwydd hyn fydd fythol fraint,
a ſanctaidd fŵn y ſiriol ſaint.

5. O dewch y nawr, y duwiol rai,
i diwno dawn y Duw di-drai :
'Rwy 'n chwennych dyfod gyd â chwi,
a'm buwiol gerdd, i'm Bugail i.

HYMN CII. Meſur hîr.

Am fedydd.

ORdeiniodd Duw in' fedydd dwfr,
i'w arfer ef, heb fod yn llwfr ;
Bedyddiwyd hefyd Jeſu Griſt,
mewn bedydd, dô, bu 'n ffyddlon dyſt !

2. Gan i ni gael gorchymyn Duw,
mewn bedydd byddwn dyſtion byw,
Mae groeſo i bob un ' gretto 'Nghriſt,
i dd'od, yn hyn, i Dduw yn dyſt.

3. Mae bedydd dw'r yn arwydd mawr,
o gladdu Criſt, dan ddaiar glawr ;
Mae 'n arwydd o'i gyfodiad ef,
tu ag at ein dwyn i deyrnas nêf.

4. Mae'n arwydd bywyd glân, yn glau,
i bawb ſydd ynddo 'n ufuddhau ;

A gwae'r dŷn, nawr, a elo 'mlaen,
mewn bywyd drwg, fel bu o'r blaen.

5. Mae'n arwydd adgyfodiad mawr,
i'r duwiol, o dan ddaear glawr;
Mae'n arwydd 'byddwn ni yn byw,
mewn glendid, gyd â'n Harglwydd Dduw.

6. Nid amcan bedydd chwaer na brawd,
yw golchi bant fydreddi 'r enawd;
Nac chwaith, i olchi pechod trist,
can's hynny ni's gwnâ neb ond Crist.

7. Ond bedydd dw'r, i'r Duwiol, gwnâ
attebiad ddwys gydwybod ddâ;
Can's felly, d'wêd y 'sgrythur lân:
am hon rhown glôd i'n Duw ar gân.

8. Ac mae'n beth hyfryd jawn, i ddŷn,
gael fiamplau Jesu Grist, ei hun;
A ph'am bydd neb a'i ben yn drist,
wrth fyn'd, trwy fedydd ar ol Crist.

9. Dilynwn Eiriau Duw o hŷd,
heb ganlyn 'fiamplau gwael y bŷd;
Ac na chanlynwn un dŷn byw;
ond fel, mae'n dilyn geiriau Duw.

10. O Dduw gwnâ'n ufudd, ni bob un,
yn ol dy feddwl di dy hun;
A rhô 'th gymdeithas di, ein Tâd,
yn hon a phob rhyw Ordeinhad.

11. A difgwyl 'r y'm ryw brŷd, gaelbyw,
uwch Ordeinhadau, gyda Duw;
Yngwîr oleulni, Duw, a'r Oen;
yn burion, fry, heb un rhyw boen.

HYMN CIII. Meſur cyffredin.

Am Fedydd.

I Gael Bedydd, daeth Criſt at *So'n*,
i Afon yr *Sorddonen*;
A phwy ddŷn, o gydwy bod ddâ,
mewn Bedydd, na ba'i lawen.

2. mae Bedydd 'n arwydd claddu Criſt,
ar ôl ei athriſt gyſtydd,
Ac adgyfodiad Criſt i'r lan,
arwyddir gan ein Bedydd.

3. Mae'n arwydd i'r crediniol rai,
o farwhai 'u hâflendid;
A'u bod i fyw, o hynny ma's,
yn well, trwy râs yr Yſpryd.

4. Mae groeſo, nawr, i'r graſol ddŷn,
ſef y credadun dedwydd;
I dd'od i ddiſgwyl wrth Dduw hael;
trwy gywyr gael ei Fedydd.

5. A'r rhai ſy dan greidiniol nôd,
ni ddylent hwy fod hebddo;
Can's dywedpwyd gynt, wrth *Saul*, dros Dduw,
am godi i'w fedyddio.

6. O Dduw gwnâ ni yn ddynion ffel,
heb adel d' ordeinhadau;
Ond gwir roi 'n crêd, ar Griſt yn ddwys;
dal et ein pwys yn ddiau.

HYMN CIV. Meſur hîr.

Am Amynedd.

MEwn bŷd o berigl 'r ŷm yn byw,
llê 'mae gofidiau o bob rhyw;
Gan nynny, angenrheidiol jawn,
cael gwir amynedd, yma'n llawn.

Trwy

2. Trwy wîr amynedd, mwynedd, yw,
y Seintiau Sanctaidd yma 'n byw,
Er cym maint yw eu trallod trist,
ânt, trwy amynedd, ar ol Crist,

Amynedd yma'n wîr, sydd raid,
can's amal yw'n gwrth nebol blaid,
Ond daw y Dŷdd fod gydâ Duw,
heb eisiau 'mynedd, syth i fyw.

4. Peth hyfryd jawn, dros hyd ein hoes,
yw gwir amynedd 'ddwyn y groes;
Mae ufudd amyneddgar wâs,
yn harddwch mawr i'r fengyl grâs.

5. Rhoed Duw amynedd, yn ei grym,
i ni fy 'gwrdd a'r gelyn llym;
A gwnaed ein ffydd i fod, yn grêf,
ar Grist a'i ail ddysodiad ef.

HYMN CV. mesur hîr.

Am yr addewidion.

ADdewid ddâ ddaeth lawr gan Dduw,
i *Adda*, pan na's haeddai fyw;
Sef y llwyr sigid siol y ddraig,
gan weithfawr hyfryd HAD y wraig.

2. Addawodd Duw, i *Abraham* dâd,
fod iddo'n Dduw; efe a'i hâd,
Sef y rhai gredant, yn ddinam,
fel ag y gwnaeth hên *Abraham*.

3. Nyni, a'n plant, a phawb sy mhêll,
cawn ran o'r addewidion gwêll;
Sef pob un elwir, yn ei ddŷdd,
i rodio gydâ Duw, trwy ffydd.

4. Daeth Addewidion Duw o'r nêf;
a'r Digelwyddog, tyngodd ef;

Trwy ddïanwadal ddau beth Duw,
ſe gaiff y dynion duwiol fyw.

5. Ac hefyd, hwy gant gyſſur crîf,
with fod yngwaith e'u Duw, yn hŷf;
A'r hwn a gréd ffyddlondeb Duw,
er maint ei berigl a fydd byw.

6. Na fy'd Adewid Duw dan gêl,
i mi, fel ſûdd a fai dan ſêl;
O Dduw rho nerth i'm henaid i,
i 'mafiyd yn d' addewid di,

7. Mae'n werthfawr, Addewidion Duw,
yngolwg pawb o'r duwiol ryw;
Am danynt, moli fydd eu gwaith,
dros hyfryd Drag'wyddoldeb maith.

HYMN CVI. Meſur cyffredin.

Sêl mewn pethau crefyddol.

DA yw dwyn ſêl mewn pethau da,
y duwiol gwna fe hynny;
Bod Serch yn dwym, ymhethau Duw,
mor fuddiol yw 'feddiannu.

2. Mae gweithred ffydd yn weithred dda,
trwy ſêl rhagora hefyd!
Gwir ſêl ddibrifia'r Groes, a'r cam,
mae'n fflam o gariad hyfryd!

3. Sêl heb wybodaeth nid yw dda,
can's hynny gwna rai 'n enbyd;
Fel gynt y gwnai i addolwyr *Baal*,
rai ynfyd gwael a gwaedlyd.

4. Ond dŷn crefyddol heb ddim ſêl,
ſef dŷn ni wêl ei heiſiau,
I hwn mae holl ddanteithion grâs,
heb fawr o flâs yn ddïau.

5. Ond

5. Ond y gwîr ſeintiau ſydd mewn ſêl,
am adel pob pechodau,
A dilyn pob dyledwaith ffŷdd,
cant flas, cant fudd, yn ddïau.

6. Yr hwn ſy 'n caru 'r Arglwydd Criſt,
yn ol rhyw driſt ddwyſbigiad,
Mewn ſêl canlyna 'r aeddfwyn Oen,
gan gofio poen ei geidwad,

7. Mewn ſêl derchafwn glôd ein Duw,
trwy dd'we'yd a byw yn dduwiol:
Fe drŷ gwîr ſêl, dda, ddwys, ddinam,
ar fyr, yn fflam drag'wyddol.

HYMN CVII. Meſur cyffredin.

Gogoneddus ddydd yr adgyfodiad.

ER bod y marwol ran o'r ſaint
yn colli ' fraint, dros 'chydig;
Trwy fod yn ynghudd o fewn i'r prîdd,
daw iddynt ddŷdd arbennig.

2. Pryd cant eu codi, 'n llwyr o'u lle,
a'u gwael hir-artre, 'i adel!
Cant godi 'n bûr, a gado 'r bêdd,
mewn cyflawn hêdd hîr hoedel.

3. Dros hîr ddiderfyn amſer maith,
mewn hyfryd waith yn hwylus!
Cant fod yn lan mewn nefol lê,
heb golli eu gartre, happus!

4. Cyn hyn daw bloedd fel Taran fawr,
nes cryno 'r llawr tra llydan?
A'r beddau agorant ymhob man,
daw 'r Saint i'r lan yn füan!

5. A mawr fydd moliant Duw ar g'oedd,
ar ôl y floedd a ſoniwyd;

Gan

Gan fod pob ſaint yn byw yn bêr,
ſel, dwedodd llawer prophwyd.

HYMN CVIII. meſur hîr.

Am hyfryd Ddydd yr adgyfodiad.

PAN dêl y floedd fel Taran fawr!
gan Udgorn Duw, o'r nêf i'r llawr!
Y beddau agorant bob yr un;
lle y mae llüoedd nawr mewn hun!

2. A chôd y Saint yn ſiriol wêdd,
mewn cyflwr byw y bant o'r bêdd!
A rhain foliannant byth eu Duw,
y rhai o feirw ddaeth yn fyw.

3. Y rhain â ganant yn gyttun;
pan delont adref bob yr un!
A'r anghytundeb, ſydd yn awr,
ni ddaw o fewn i'r nefoedd ſawr.

4. Fe fydd y deall yno'n bur;
a phob un 'gerdd yn ol y gwîr;
A chariad brawdol fydd yn llawn,
o fewn pob un, yn hyfryd iawn.

5. Pryd hyn gwel Jeſu werth ei wa'd;
pryd hyn, bydd melus moli 'r Tâd;
Mae'n hyfryd nawr mewn anial fŷd,
i feddwl cael gweld hyn i gŷd.

HYMN CIX. meſur hîr.

Am gariad brawdol.

MAE 'n arwydd, nad yw pawb yn jâch,
os cariad brawdol ſydd yn fâch;
Ac nid yw 'n arwydd, cywir râs,
mewn dŷn ſy a'r duwiol ganddo 'n gâs.

2. Yr hwn ſy'n caru pobol Dduw,
ſymmudwyd ef o farw 'n fyw;

A'r

A'r Dyn a gywyr gâr y Tâd,
a gâr ei Fâb, a gwerth ei wa'd.
3. Nid yw ſefyllfa, yn y bŷd,
yn wrthddrych cariad, cyflawn, clŷd :
Nid yw'r cyfoethog, mwy na'r tlawd,
yn wrthddrych cariad, cywir frawd.
4. Ond Delw 'r Jeſu ymhob un,
yw gwrthddrych brawdol, gariad dŷn ;
Pa fwya 'r grâs fo'n gwneuthur llês,
mwy fydd o gariad gwîr mewn gwrês,
5. Pan del cyflawnder perffaith ddawn,
bydd cariad brawdol, byth, yn llawn !
A derfydd yr ymbleidiau, fydd,
yn rhwyſtro llawer iawn o'r bŷdd.

HYMN CX. Meſur Cyffredin.

Am gariad brawdol.

GWîr gariad brawdol, peraidd yw ;
a rhwymyn, gwiw, perffeithrwydd ;
Mae'n nôd o wir ddyſgyblion Criſt ;
mae'n firiol Dyſt fa cteiddrwydd.
2. Gwîr gariad, cymmwynaſgar yw,
i bobol Dduw yn ddiau ;
A'r gwîr y mae 'n cyd lawenhau ;]
ond llwyr gaſau pob drygau.
3. Ni chefigenna cariad pûr,
mae'n goddef cûr yn fynych ;
Ni feddwl ddrŵg yn erbyn neb,
cyttundeb mae'n ei chwennych.
4. Cariad, ni chais yr eiddo 'i hun
cais lês i'r dŷn diffygiol ;
Fe bercha 'fe bob chwaer a brawd ;
derchafa 'r tlawd ſ'o duwiol.
5. Am gariad, awn at Dduw, ein Tâd,
na fydded brad rhwng brodyr ;
Bydd clôd i'r Jeſu, yn ddiwâd,
trwy frawdol gariad cywyr.

HYMN

HYMN CXI.

Criſt yn dyfod i farnu'r byd, ac yn caſglu ei bobl ynghyd.

FE ddaw 'r Arglwydd mewn gogoniant ;
Daw er ſeibiant pawb o'r ſaint,
Ac fe eiſtedd ar farn-orſedd
Wen ; tra rhyfedd fydd ei maint ?
A'r angylion, gaſglant 'n union bawb o'r dynion,
At 'r un cyfion uchel fraint.

2. Wele 'r bugail, tra gwybodol.
Yn didoli ' ddefaid e' ;
Dŵg hwy'n llariedd, heb ddim llygredd,
Bawb yn llwyredd, i'r un llê,
Geilw 'r defion ddefaid gwirion, dewch yn dirion,
Trowch yn lluniedd i'r llaw dde',

3. Dewch chwi blant, fy fendigedig,
Dewch yn ddiddig, attaf fi,
Mae i chwi deyrnas ddierchafedig,
A gwîr ddidrangcedig fry ;
Fe ddaeth y prŷd gwrandewch i gŷd, er ſeiliad bŷd,
Hon fydd barod blant i chwi.

4. Nawr 'r yeh chwithai 'n barod puraidd,
Mawr yw rhinwedd gwaed yr Oen !
Dewch i'r deyrnas, bawb mewn urddas
Chwi rai addas, at Dduw Jôn,
Etifeddwch wîr ddedwyddwch ; clywch, teyrnaſwch
Mewn llawn heddwch, byth heb boen.

5. O 'n Duw tirion a thrugarog
Mor dra enwog gwnai di blant !
Mae 'r fath feddwl ymron cwbwl
Codi 'n c'lonnau nawr y bant !
'Rhai fu 'n pechu, 'n cael teyrnaſſu, gyd a'r Jeſu !
Yn ol credu hwy a'i can't.

6. Dod ni Arglwydd mewn diſgwyliad,
Dy ddyfodiad lawr o'r nêf ;
Gan fod a'n cyſſon rodiad union,
Bawb a'u ffiwythau ffŷdd yn grêf

A'r

A'r oil goreu yn eu lampau, 'n gwîr roi goleu:
Hyd bo 'n fiwrnai bydded ef.

HYMN CXII. Meſur hîr.

Am fendith.

YR y'm ni 'n haeddu i'r felldith fawr,
i dd'od i'n cwrdd ni bob yr awr;
Ond cym'rodd Criſt y felldith hon;
cawn ninnau 'r fendith fwyn o'r bron.
2. Cawn fendith ar y groes a'r gwawd;
cawn fendith os cawn fod yn dlawd;
Cawn fendith ar geryddon Duw;
trwy 'r fwynedd fendith, cawn ni fyw.
3. Cawn fendith ar ein henaid prûdd,
cawn fendith ar ein gwaith, bob dŷdd,
Cawn fendith tra f'om yn y bŷd;
cawn fendith yn y nef o hŷd.
4. Rho fendith ar bob ordeinhâd
a roiſt i ni, O Dduw ein Tâd;
Bendithia lewyrch d' wyneb di;
bendithia 'n Duw y cwmmwl du!
5. Ac wrth roi 'th fendith yn ddi feth,
cai dithau 'r clôd oddiwrth bob peth,
Cawn innau hefyd nefol fudd,
wrth ganu 'th glôd o ddŷdd i ddŷdd.

HYNM CXIII. Meſur cyffredin.

Ar ol ſwpper yr Arglwydd.

CRISTſydd wîr fara, peraidd flâs,
a rowd o râs i ddynion;
Mor ſelus mae, i'r graſſol fîn,
trwy 'r bara a'r gwîn, yn gyſſon.
2. Mae gennym wlêdd oddiwrth y Tâd;
ſef cnawd a gwaed un gwirion!
Mae gennym ordeinhâd, ſydd wŷch
er cofio dr ŷch y cyſion

3. Rhwng ei elynion y bu Criſt,
mewn poenau triſt y parodd;
Nes daeth yn ſuddiol ſlafus ſwyd,
i'r rhai, o'r rhwyd, ddihangodd.
4. At Griſt yr awn, am ymborth pur.
'rhai ſüom hîr mewn prinder,
Cawn ef yn ſwyd, gwîr gymmwys ŷn',
yn Seion fryn mae 'r ſwpper.

HYMN CXIV Meſur hîr.

I'w chanu wrth anfon gweinidog.

CRIST ſydd yn awr, o ſewn i'r llen;
er hyn i'r eglwys mae ſe 'n ben,
Ac mae 'n gofalu 'n fawr o hŷd,
am dan y duwiol, ſy 'n y bŷd.
2. Gofalu am y rhei'ni gwnâ;
trwy roi iddynt weinidogion dâ,
A'u portho hwynt, tr'o nw' yn y bŷd,
â'r ymborth goreu, yn ei brŷd.
3. Ein Duw rydd doniau, yn ei brŷd,
er argyhoeddi rhai o'r bŷd;
A rhoddir doniau gan ein Duw,
i roddi bwyd i'r dynion byw.
4. Duw 'n cadw 'i ddefaid, gynt, yr oedd,
trwy fwyn fugeiliaid wrth ei fôdd;
A'i ofal beru dros ei braidd,
rhag eu ſglyfaethu gan y blaidd.
5. Mae 'n rhoi Bugeiliaid da o hŷd,
i gadw ei braidd o'r bron ynghŷd,
Nes delont oll, i'r gorlan gû,
lle byddant gyd a'u Bugail frŷ.

HYMN CXV, Meſur cyffredin.

Y ſaint yn oleuni 'r byd.

FE ddaith rhyw d'w'llwch mawr i'r bŷd,
trwy greulon lîd y gelyn;

Ond

Ond daeth goleuni mawr a grâs,
i'w yrru 'fe maes, wed'yn,
2. Ac felly ' rhai, yn d'w'llwch oedd.
wnaeth Duw, ar g'oedd yn oleu ;
A'r rhain, fy 'nawr, o brŷd i brŷd,
'n oleuni i'r bŷd yn ddïau.
3. Rho'i goleu am berffeithrwydd Duw,
mor ſanctaidd yw, mae 'r ſeintiau ;
Am gariad a thrugaredd Jôn,
goleua 'r dynion goreu.
4. Am Griſt, rhôdd werthfawr ein Duw dâ,
goleua 'r dynion duwiol ;
Ac am ddrwg pechod, yn ddilai,
rhoi goleu ' mae rhai graſol
5. O Dduw goleua ni o hŷd,
fel b'om i'r bŷd 'n oleuni ;
Ac na'd ni ' fyn'd, trwy chwantau chwith,
i'r t'w'llwch byth ond hynny.

HYMN CXVI. Meſur cyffredin.

Addfwynder

ADdfwynder, oedd yn Jeſu Griſt,
pan bu mewn triſt ofidiau ;
Addfwynder ſydd yn hardd, o'r bron,
yn ei ddiſgyblion yntau.
2. Yſpryd aeddfwyn, hyfryd yw ;
mae ger bron Duw yn werthfawr ;
Dŷn llonydd llariedd, dan y groes,
gair, yn ei oes, yn glodfawr.
3. Mae 'n harddwch mawr i 'fengyl grâs ;
mae hwn yn frâs ei enaid ;
Cyd-deimla â'r dŷn ſ'o dan y groes,
gweddia dros rai gweiniaid.
4. Er cynddrwg ydyw natur dŷn,
trwy greulon wŷn naturiaeth ;
Gwnâ grâs e'n addfwyn yn ei fryd,
a'i yſpryd dan lywodraeth.

5. O Dduw, gwna 'n addfwyn ni bob un,
yn groes i'n gwŷn lygredig ;
Gan lâdd ein llygredd llawn, yn llwyr,
i ddîg, gwna ni'n hwyrfrydig.

HYMN CXVII.

Yr etholedigion yn cael eu prynu a'u ſancteiddio.

DUW y llüoedd a etholodd,
Ei holl bobloedd ef ei hun,
Cyn ei geni gynt, na'i cïeu,
'Roent o'r naillîdu, bob yr un ;
Gan wîr gariad Duw ein ceidwad : myn eu gwarchad,
Er drŵg fwriad, ni's cyll dŷn.
2. Pan etholwyd, hwy ddiogelwyd,
Mewn cyfammod hyfryd hêdd ;
Aeth yr Jeſu dros y rhei'ny,
Rhag eu colli yn un wêdd,
Hwn yw 'r meiche, cadarn gore ; ceidw hwythau,
Er pob drygau, i gael gwlêdd !
3, Pan daeth'r amſer i'w gyflawnder,
O'i wîr fwynder daeth yr Oen ;
I'w llwyr brynu, daeth yr Jeſu,
Dros y rhei'ny bu ei boen,
Crift yw 'n prynwr, gwîr Jachawdwr, cywir garwr,
Llawn foddlonwr hyfryd Jôn,
4. Trwy râs nefol, gwnair yn dduwiol,
Bawb o'r bobol, brynodd Crift ;
Trwy fawr rinwedd, cair o'r diwedd,
'Rhain heb lygredd ; gair Duw 'n dyſt :
Dymma 'r eglwys, gair yn gymmwys, frŷ 'mharadwys,
Gwedi gorphwys, nid yn drift !

HYMN CXVIII Meſur cyffredin.

Amlygiad paham y mae Seion yn canu.

HAelionus yw ein Harglwydd ni,
yn rhoddi mae fe 'n gyſſon ;

Trwy

Trwy amlder doniau 'r Yſpryd-glân,
fe ſŵnir cân yn Seion.
2. Torredd rhwyd yr adarwr mawr;
gwaredwyd nawr y gwirion;
Y gelyn dewr, a gollodd dir;
fe genir nawr yn Seion.
3. I'r ddaear daeth, gwîr Hâd y wraig,
ac at y ddraig yn union!
A mawr y crynodd hi o'i flaen;
am hyn mae cân yn Seion.
4. Fe ſigwyd pen y ſarph ar g'oedd,
cymmododd Duw a dynion!
Ac am fod braint pechadur cywch,
rhoir clôd, chwi clywch, yn Seion.
5. Pob braint i gyd, a ddaeth trwy Grift,
fe godwyd triſt ei galon;
Trwy râs fe rêd y lleſg ymla'n;
am hyn mae cân yn Seion.
6. Yn gwîr amlhau mae grâs ein Duw,
er amled yw 'n gelynion;
Daw'n llygredd lawr trwy'r Yſprydglan;
waith hyn mae cân yn Seion.
7. Mae ffŷdd y duwiol yn cryfhau;
gobeitho mae fe 'n gyſſon;
Mewn fêl y mae yn myn'd ymla'n;
am hyn mae cân yn Seion.
8. Cyn hîr cawn fyn'd y bant o'r bŷd,
cawn gwrdd ynghŷd uwch ofon!
Wrth feddwl y daw hyn ar fyr,
fe genir nawr yn Seion.
9. Pan del pob duwiol oll ynghyd,
i gael i gyd y goron;
A'r corph a'r enaid oll yn lân!
bydd ſiriol gân yn Seion.

HYMN CXIX. Mesur cyffredin.

Am ogoniant y Saint

Y Saint fydd ar y ddaear nawr,
mewn gofid mawr tra mynych;
Ond bydd y rhain ar fyr yn rhŷdd?
fel maent, bob dydd, yn chwenych.
2. Gwyn fyd y rhai fy o galon bur;
cymmerir hwy i ogoniant!
A byddant hwy 'n llu, uwch y llen,
yn llawen frŷ mewn llwyddiant.
3. Cant weled Jesu ar pob pryd;
cant fod i gyd yn gryno;
Cant hyfryd bresenoldeb Duw,
cant fod, a byw, byth yno.
4. Bydd yno 'r *Patriarchiaid* gynt,
mewn helynt dra rhagorol;
A phawb a garant Grist yn ddwys,
gant fynd i'r Eglwys nefol.
5. Ac yna canu fydd eu gwaith,
mewn hyfryd jaith, yn hwylus;
Cant hwy fawr fraint, cyfammod hêdd,
mewn uchel wêdd, yn jachus.

HYMN CXX. Mesur cyffredin.

Am ostyngeiddrwydd.

GOrchmynodd Jesu Grist dan go',
i'n rodio 'n ostyngedig;
A dwyn y groes, tra wy rinwedd grâs,
a gwêdd wir addas ddiddig.
2. Mae gostyngeiddrwydd yn beth hardd,
i bawb yngardd yr Arglwydd;
Mae balchder bywyd yn beth cas,
i'r addas ostyngeiddrwydd.
3. Gwîr olwg ar ein gwaeledd ddrŷch,
a hynny 'n fynych hefyd,
A'n dysg i fyw, mewn isel wêdd,
gan adel balchedd bywyd.

4. O Ddiw gwna'n oftyne lig, ni,
wrth dy fodd di dy hunan;
Ac na i ni i fyw yn falch, yn awr,
fel mae mawr lu'r ffordd lydan.
5. I'r goftyngedig, grâs rhoi di,
ond yn gwrtaneb 'r beilchion;
Yn oftyngedig, jôr, gwna ni,
a chuôd gai di, yn gyffon.

HYMN CXXI. Mefur hîr.

Y Duwiolyn gwelio ar ei droed wrth fyned i dy Ddûw.

'RWy'n myn'd, yn awr, i dŷ fy Nuw,
lle 'r wyf am fod tra fyddwy' fyw,
'Rw'i 'n chwenych gwilio ar fy nhro'd,
wrth fyn'd lle 'r wyf, dros fyth, am fod,
2. Rw'i'n chwennych gwilio'r gw'llys nawr,
'rw'i'n chwennych cael gwrefogrwydd mawr,
'Rwy,'n chwennych gwilio, ar bob tro,
rhag bod heb ddeall, nac heb go'!
3. Mi wiliaf am gydwybod dda;
ac ar fy meddwl gwilio wnâ,
Rw'i n chwennych clywed beth ddwed Crift,
am hynny gwliaf ar y Glyft.
4. Ac ar fy nhafod gwilio wnâ,
rhag i mi dd'wedyd ond fo ddâ;
Ac ar fy llygaid gwilia, 'n fwy,
rhag edrych ar beth gwag â nhwy.
5. O Ddiuw, na'd fi heb dduwiol ddawn,
rhag i'm anghofio gwilio 'n iawn;
A gwilia dithau drofof fi,
fel gwiliwyf, gadw gydâ thi.

HYMN CXXII. Mefur cyffredin.

Codwch, awn i Sion, at yr Arglwydd ein Duw,

NAwr codwch, awn i Seion fyw,
at Arglwydd y Ddiuw y duwiau;
Codwn o fyfg cyfeiliorn fu,
'n ein llygru ni 'n ein llwybrau.

2. Gadewn bob drŵg, a'r ſwrthni ſydd,
fel bar, rhag budd i'r enaid;
A glynwn nawr wrth Grift, trwy ffŷdd,
trwy hwn 'r â'n rhŷdd rai gweiniaid.
3. Ni a godwn nawr at grefydd Crift,
'r hwn fu mewn trift ofidiau;
Atferwn ni nawr foddion grâs,
yn füan; brâs yw'n breintiau.
4. Trwy'r moddion dâ, awn at ein Duw,
am râs, i fyw 'n drag'wyddol;
Ac am gymmundeb ein gwir jôn;
yn Seion cair e'n firiol.
5. Mae pob braint gan ein Brenin ni,
a rhoddi mae'n rhagorol!
Bydd pawb o'r Saint, ar fyr, o'r bron,
yn Seion, yn drigiannol.

HYMN CXXIII. Meſur cyffredin

Dynion yn dyfod, ar ddarfod am danynt, wrth lais yr efyngyl.

'REfengyl ſydd, fel udgorn mawr,
yn galw nawr y gwerin;
Mewn geiriau mwyn, mae'n gweiddi ma's,
yn awr mae grâs y Brenin.
2. Trwy'r fendith fwyn, mae'n fuddiol iawn,
gwrandewn, ni a gawn y gwynfyd;
O dewn i wrando 'i nefol lais,
yn fwyn, ar gais am fywyd.
3. Ar ddarfod yr oedd dynion gwael,
on' buaſai gael 'r efengyl;
A phawb mewn dychryn fydd ryw drô,
a roddo iddi wegil.
4. Boed grâs 'r Efengyl fwyn, mewn grym,
yn gwneud yn gyflym ddynion;
I ffoi ar ffrwſt, at Grift trwy ffŷdd,
am galon fudd, yn gyſſon.
Y rhai, at Grift, yn rhwydd, fy'n d'od,
ar ddarfod, nawr, am danynt;

Hwy

Hwy fyddant fyw'n y nefoedd, cuwch;
yn hyfryd, clwych eu helynt!

HYMN CXXIV. Meſur hîr.

Y Duwiol mewn rhyfel, a thrallod, hyd angau.

'RWYF, nawr, ys rhai blynyddau 'n byw
o fewn i dŷ fy nhâd a'm Duw;
Ac yn yr amſer hwnnw, cês,
dybygwn, lawer jawn o lês.
2. Ac wrth drîn Ordeinhadau ei dŷ,
bu'n hyfryd, weithiau, arnafi;
Pan byddai'r Brenin ar y bwrdd.
mor felus fyddai 'i fia i g'wrdd;
3. Ond, wrth drîn ordeinhadau 'r tŷ;
bum lawer gwaith dan gwmmwl dû;
Gan hynny dywedwn ar ryw bryd,
a ddarfu 'r cyſſur nawr i gyd!
4. Ar hyn, fe godai 'm ffŷdd ei phen,
mewn awch, o'r llawr, ai uwch y llen!
Gan edrych ar ffyddlondeb Duw,
yr hwn yn annewidiol yw!
5. Ond trwy gyfrwyſtra 'r gelyn llym,
doi anghrediniaeth yn ei grym!
Gan gyddio pob addewid wŷch,
hi 'm bwrîau i lawr, yn wael fy nrŷch!
6. Ac yno dioddef gawn ni 'n doſt,
yn rhwym, fel pe bawn wrth ryw boſt,
A fi ni's gallwn fyn'd o'r man,
na fyflyd mwy na *Samſon* wan.
7. Ac yna, doi gelynion lû,
fel y Philiſtiad, arnaf fi!
Ond cofiais i y Cyfaill mwyn,
a'r Bugail geidw bawb o'i ŵyn!
8. Ac yna gobaith godai 'i ben,
gan fyn'd yn llon, tu fewn i'r llen;
I'r llê 'r aeth Jeſu, droſof fi,
am bardwn o bechodau lu!

9. A d'we'yd, 'rwyn diſgwyl wrthyt ti,
am nerth, i'm cynnorthwyo i ;
Can's angredinaeth ſy'n ei grym,
ymron fy llâdd ; gan fod mor llym !
10. Yn awr, anſonai 'r Jeſu 'i fŷs ;
i dwll y galon doi ar frys !
Ac yna 'r ſerch gynhyrfai 'n ſiŵr,
am gyrraedd at ei gadarn Dŵr !
11. A 'r cariad hwn, dibrifio wnai,
bob gelyn, ar ei ffordd a g'ai ;
Yn awr, trwy gariad gweithiau ffŷdd,
yn rhwydd o'm rhan, i'm rhoddi 'n rhŷdd.
12. Yna ſe ddaeth yr hyfryd ddŷdd,
pan gydâ fi y codai ffŷdd !
Ac anghrediniaeth ga's ei briw,
trwy gariad, grym, a gras fy Nuw !
13. Pan anghrediniaeth gollodd dîr,
yn ol cael goruchafiaeth hîr,
Gwnai ffydd i bob rhyw elyn ffoi,
ac yna'n dawel arnaf doi !
14. Ond, er gorchfygu, ambell bryd,
ni ddarfu 'r rhyfel ddim i gyd ;
Can's mae o'm mewn elynion lû
heb law y diafol dyfal ſy.
15. Ac 'r wyfi 'n profi, fore a hwyr,
na's ca's un gelyn laddfa lwyr ;
Ond, trwy fawr ofal Jeſu fry,
hyderu 'r wyf, na leddir fi.
16. Fe faeddwyd *Samſon* gynt, yn faith,
ond etto cododd at ei waith !
Ac wrth ei farw (hynod yw !)
ni ſafodd gelyn yno 'n fyw !
17 'Rwyfinnau 'n meddwl, ambell, bryd,
am fy ngelynion oll i gyd,
Mai 'n angau ' derfydd 'rhain bob un ;
ond y glew angau glâs ei hun.
18. A daw y dydd y derfydd ef,
er c'yd y bu a'i galon grêf !

Yn

Yn adgyfodiad gwych y ſaint,
cant hwy 'r fuddugoliaethol fraint.
19. I angau, 'n angau y bu Criſt;
er bywyd i bechadaur triſt!
A thrwy gyfodiad gwir Fâb Duw,
pa fodd y dychon angau fyw!
20. Can's trwy gyfodiad Jeſu gwiw,
y duwiol meirw, dont yn fyw;
Ac mewn gogoniant, gyd â 'r Oen,
byth byddant byw, heb friw na phoen.

HYMN CXXV. Meſur cyffredin.

Am Sancteiddwrydd.

EIn Harglwydd Dduw un ſanctaidd yw,
boed i ni fyw yn ſanctaidd;
Gadewn o hyd, bob aflan fryd,
rhown ffwrdd bob bywyd ffiaidd.
2. Mae'n eglyr, wrth air Duw ei hun,
na ddaw un dŷn yn ddedwydd,
Heb wneud ei enaid ef yn bur,
trwy rinwedd gwîr ſancteiddrwydd.
3. Ni chaiff un dyn i weled Duw,
heb ſymledd gwiw Sancteiddrwydd;
Gan hynny, 'r aflan oflyd gwael,
ſydd byth, heb gael yr Arglwydd.
4. Trwy heiddiant Criſt, mewn hyder 'r awn,
yn gyfiawn, at yr Arglwydd.
Ond rhaid ein puro, trwy râs Duw,
cyn gallom fyw yn ddedwydd.
5. Rhag pechod pura ni, ein Duw;
na âd ni fyw yn aflan;
Trwy 'n nerthu fyw nawr, wrth dy fodd,
cai fawl, ar g'oedd, yn füan.

HYMN CXXVI. Meſur cyffredin.

Truenus gyflwr dyn trwy bechod a'i fraint trwy Griſt.

YN *Adda*, ſe aeth gynt ar goll,,
yn liwyr, ei holl hiliogaeth;

Yn

Yn *Adda* 'r ail, fe ddaeth yr ôl,
drag'wyddol lachawdwriaeth.
2. Trwy gredu'r ſalph aeth dŷn yn ſiwr,
i gyflwr tra thrüenus!
Ond trwy wîr gredu 'n Jeſu gwiw,
mae hwn i fyw yn happus.
3. Trwy bechod, trwm yw'r baich ar ddŷn,
nis gall ei hun mo'i fyflyd;
Trwy Griſt, y mae 'n cael ei 'ſmwythau,
a'i gadarnhau mewn gwynfyd.
4. Yn groes i'r gair mae dŷn o'r grôth,
trwy nag, mae 'n noeth ei gyflwr;
Ond trwy gyflawnder pryhwr pur,
yn ſiccir mae iddo ſwccwr!
5. Wrth natur, dŷn fy 'n doſt ei wêdd,
mewn buchedd wael o bechod!
Ond trwy Fab Duw, mae 'n hardd mewn hêdd,
o'r llygredd caiff ollyng-dod
6. Trwy droſedd un, fe drôw'd pob dŷn
yn wrthyn ei naturiaeth;
Ond trwy râs yſpryd Jeſu mwyn,
gwnaed ef yn addfwyn eilwaith!
7. Trwy'r llygredd, dŷn fy 'n llithro bant
mewn gwŷn boeth chwant i bechod;
Ond trwy râs Criſt, gwrth'neba 'r dŷn,
ei chwant ei hun yn hynod!
8. Trwy bechod, dynion ga'w'd, i gyd,
yn noeth i lid yr Arglwydd!
Ond trwy dd'od Jeſu lawr i'n myſg,
mae i ni wîſg o newydd.
9. Trwy bechod byth, yr haeddem boen,
yn eigion uffern iſod!
A gretto 'Nghriſt, caiff trwyddo 'ſe,
y jachus le ſydd uchod.